


Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3

Rhan 2: Effeithiau yn ardaloedd yr
awdurdodau lleol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3

Rhan 2: Effeithiau yn ardaloedd yr awdurdodau lleol

Cynulleidfa	Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio'n bennaf gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles (mae'r grŵp yn cynnwys y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi; y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth; y Gweinidog Tai ac Adfywio; y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi; a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol) ynghyd â swyddogion polisi a dadansoddol perthnasol.
Trosolwg	Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Gam 3 y rhaglen ymchwil i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at: Y Tîm Gweithrediadau Yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6160 e-bost: welfarereform@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/pobl-a-chymunedau

Cynnwys

Rhestr o acronymau	1
Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol	2
1. Cyflwyniad	5
2. Effaith diwygiadau lles ar Gymru gyfan	7
3. Effaith diwygiadau lles unigol ar ardaloedd awdurdodau lleol	14
Newid i fynegeio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi	23
Cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a'r Budd-dal Plant	26
Lwfans Byw i'r Anabl: Colli hawliadau	29
Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol i'r rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith	32
Budd-dal Plant: Rhewi cyfraddau	36
Budd-dal Plant: Yn cael ei dynnu'n ôl yn raddol lle mae gan rywun yn yr aelwyd incwm trethadwy o fwy na £50,000	39
Credyd Treth Gwaith: Cynyddu'r gofyniad ynglŷn ag oriau gweithio i gyplau sydd â phlant o 16 i 24 awr	42
Credyd Treth Plant: Dileu'r ail drothwy incwm	45
Budd-dal Tai: Diwygiadau 2011-12 i'r Lwfans Tai Lleol	48
Budd-dal Tai: Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn y sector rhentu cymdeithasol	51
Budd-dal Tai: Uwchraddio'r Lwfans Tai Lleol yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr	54
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	57
Budd-dal Tai: Cynyddu trothwy oedran y Gyfradd Llety a Rennir o 25 i 35 oed	60
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	63

4. Cronfa Taliadau Tai Dewisol	66
5. Cosbau budd-daliadau	69
6. Casgliadau a'r camau nesaf	73
Cyfeiriadau	75
Atodiad 1: Crynodebau o ardaloedd awdurdodau lleol	78
Atodiad 2: Ffynonellau'r data a methodoleg	102

Rhestr o acronymau

BP	Budd-dal Plant
MPD	Mynegai Prisiau Defnyddwyr
BDG	Budd-dal y Dreth Gyngor
CTP	Credyd Treth Plant
CDG	Cymorth y Dreth Gyngor
TTD	Taliadau Tai Dewisol
LBA	Lwfans Byw i'r Anabl
LCCh	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
BT	Budd-dal Tai
CThEM	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
LCG	Lwfans Ceisio Gwaith
ALI	Awdurdod Lleol
LTLI	Lwfans Tai Lleol
SYG	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
TAP	Taliad Annibyniaeth Personol
SRhP	Sector Rhentu Preifat
MPM	Mynegai Prisiau Manwerthu
CLIR	Cyfradd Llety a Rennir
SRhC	Sector Rhentu Cymdeithasol
CC	Credyd Cynhwysol
CTG	Credyd Treth Gwaith

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

- Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno'r newidiadau mwyaf i fudd-daliadau lles mewn 60 mlynedd.
- Amcangyfrifir y bydd y diwygiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU ers 2010 a hyd at datganiad yr Hydref 2013 yn arbed tua £21 biliwn i Drysorlys y DU erbyn 2014-15 (tua 10% o'r gyllideb nawdd cymdeithasol a chredydau treth).
- Yn 2011, comisiynodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles raglen ymchwil¹ mewn tri cham i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru.
- Mae'r adroddiad hwn yn rhan o waith ymchwil Cam 3 a'i nod yw rhoi sylfaen dystiolaeth ynglŷn ag effeithiau posibl diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Aseswyd 14 o ddiwygiadau lles ar lefel awdurdod lleol o ran nifer yr hawl wyr yr effeithiwyd arnynt a'r effeithiau posibl ar incwm. Mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar fodelau sefydlog ac felly nad ydynt yn ystyried unrhyw effeithiau ymddygiadol megis hawl wyr yn cael gwaith neu'n symud i eiddo rhatach, neu landlordiaid yn gostwng rhenti. Nid yw'r gwaith ymchwil yn ystyried unrhyw incwm ychwanegol a gollwyd oherwydd cosbau budd-daliadau ychwaith. Amlinellir canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil hwn isod.

Effaith diwygiadau lles ar Gymru, gyfan

- Amcangyfrifir y bydd y newidiadau polisi a aseswyd yn yr adroddiad hwn yn lleihau hawliadau blyneddol o ran budd-daliadau a chredydau treth yng Nghymru tua £900 miliwn yn 2015/16. Er mwyn rhoi'r golled gyffredinol hon yn ei chyd-destun, amcangyfrifir y bydd gwariant ar fudd-daliadau a chredydau treth tua £6 biliwn ac y bydd incwm crynswth aelwydydd i'w wario tua £45 biliwn yn 2015/16².
- Fel y dengys y siart uchod, gellir priodoli tua hanner y cyfanswm a gollwyd yng Nghymru i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio. Mae colledion ariannol mawr eraill yn deillio o lwyth achosion

¹ Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen ymchwil hon ac adroddiadau cynharach yn: www.cymru.gov.uk/people-and-communities

² Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar: amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau o wariant ar fudd-daliadau i Gymru ar gyfer 2011/12 a rhagolygon Prydain Fawr ar gyfer 2012/13 ymlaen (gan gynnwys Lwfans Gweini, budd-daliadau Profedigaeth, Lwfans Gofalwr, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd, Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Mamolaeth, Lwfans Anabledd Difrifol a Thâl Mamolaeth Statudol), a data CThEM ar gredydau treth a gwariant ar Fudd-dal Plant i Gymru ar gyfer 2012/13 a rhagolygon Prydain Fawr ar gyfer 2013/14 ymlaen, data'r Swyddaf Ystadegau Gwladol ar incwm aelwydydd a rhagolygon chwyddiant y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol.

is o dan y Taliad Annibyniaeth Personol (TAP) o'i gymharu â'r Lwfans Byw i'r Anabl (LBA) a'r terfyn amser o flwyddyn ar y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh) cyfrannol i'r rhai yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Ar y llaw arall, mae rhai o'r diwygiadau i'r Budd-dal Tai (BT) a'r Cap ar Fudd-dal Aelwydydd yn arwain at golledion llawer llai o ran cyfanswm yr incwm a gollwyd yng Nghymru.

- Er y bydd y colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd colled flynyddol gyfartalog o tua £500 fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru yn 2015/16.
- I'r rhai y mae'r diwygiadau lles yn effeithio ar eu hincwm, efallai y bydd newidiadau canlyniadol mewn gwariant a sgil-ffeithiau ehangach i'r economi. Er enghraifft, mae llai o arian ym mhocedi pobl yn golygu eu bod yn prynu llai o nwyddau a gwasanaethau, mae'r cwmnïau sy'n eu cynhyrchu wedyn yn cyflogi llai o bobl, gan olygu bod llai o arian i'w wario gan y bobl hynny, ac ati. Mae lluosyddion cyllidol yn mesur effaith newid mewn gwariant ar fudd-daliadau a chredydau treth ar faint yr economi yn y byrdymor. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn defnyddio lluosydd o 0.6 ar gyfer newidiadau mewn gwariant ar les (tua maint toriadau llywodraeth glymblaid y DU, h.y. 1 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth). Awgryma rhywfaint o dystiolaeth y gall effeithiau lluosydd fod yn fwy yn ystod cyfnodau o wendid economaidd. Fodd bynnag, os bydd y diwygiadau lles yn llwyddo i gynyddu cyflogaeth, yn yr hirdymor, gall hyn arwain at gynnydd mewn cynnyrch economaidd.

Effeithiau diwygiadau lles ar ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru

- Mae'r canfyddiadau yn dangos yn glir bod effaith diwygiadau lles yn amrywio rhwng ardaloedd awdurdodau lleol o ran nifer a chyfran yr unigolion / aelwydydd yr effeithiwyd arnynt a'r colledion ariannol cyfartalog.
- O blith holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, amcangyfrifir mai yng Nghastell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful y bydd y diwygiadau lles a ddadansoddwyd yn cael yr effaith fwyaf. Er y bydd y colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd colled flynyddol gyfartalog o tua £600 fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn yn 2015/16 o gymharu â £500 i Gymru gyfan.
- Mae bron chwarter y boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, sef y gyfran uchaf yng Nghymru. Effeithir yn benodol ar yr ardaloedd hyn o ganlyniad i'r newidiadau i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio, y terfyn amser ar y LCCh yn Seiliedig ar Gyfraniadau, cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol a'r meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol. Mae effeithiau o'r fath yn adlewyrchu'r cyfraddau hawlwy'r budd-daliadau oedran gweithio cyffredinol cymharol uchel, yn enwedig o ran budd-daliadau anabledd a salwch (h.y.

LBA a LCCh), a'r gyfran uchel o stoc tai rhent yn y sector rhentu cymdeithasol.

- Ar y pegwn arall, mae'r diwygiadau lles a ddadansoddwyd yn cael llawer llai o effaith, ar gyfartaledd, ym Mhowys, Gwynedd a Cheredigion. Mae hyn yn adlewyrchu eu cyfraddau hawlwy'r budd-daliadau cymharol isel gydag ychydig dros un o bob deg o'r boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, sef y gyfran isaf yng Nghymru.
- Unwaith eto, er y bydd y colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd colled flynyddol gyfartalog o tua £400 fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn yn 2015/16, sef tua dwy ran o dair o'r golled a welir yn yr ardaloedd lle ceir yr effaith fwyaf.
- Mae'r canfyddiadau uchod yn seiliedig ar golledion cyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio, a all weithiau gelu gwahaniaethau mewn effeithiau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol mawr.
- Ffordd arall o edrych ar yr effeithiau yw edrych ar incwm absoliwt a gollir a chyfran cyfanswm colledion Cymru ym mhob ardal awdurdod lleol. Amcangyfrifir mai yng Nghaerdydd (£103 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£81 miliwn) ac Abertawe (£75 miliwn) y bydd y colledion mwyaf o ran cyfanswm incwm (y mae pob un yn hafal i 8-11% o gyfanswm Cymru) yn unol â'u cyfrannau o'r boblogaeth o oedran gweithio. Tra bydd Merthyr Tudful (£22 miliwn), Ynys Môn (£19 miliwn) a Cheredigion (£18 miliwn), sydd ymhlith ardaloedd awdurdodau lleol lleiaf Cymru yn seiliedig ar gyfrannau o'r boblogaeth, yn gweld y colledion isaf o ran cyfanswm incwm (y mae pob un yn hafal i 2-3% o gyfanswm Cymru).

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno'r newidiadau mwyaf i fudd-daliadau lles mewn 60 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd y diwygiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Glymblaid y DU ers 2010 a hyd at datganiad yr Hydref 2013 yn arbed tua £21 biliwn i Drysorlys y DU erbyn 2014-15 (tua 10% o'r gyllideb nawdd cymdeithasol a chredydau treth).

Yn 2011, comisiynodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles raglen ymchwil i ddadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru, gyda'r nod o ddarparu tystiolaeth i ategu penderfyniadau polisi. Effeithir yn fawr iawn ar Gymru gan ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU sy'n parhau. Er na allwn wneud iawn am y newidiadau hyn, mae'r canfyddiadau o waith ymchwil cynharach y Grŵp eisoes wedi cael eu defnyddio er mwyn helpu i dargedu ymdrechion Llywodraeth Cymru i liniaru (lle bo modd) unrhyw oblygiadau negyddol o ran y diwygiadau, a byddwn yn parhau i flaenoriaethu adnoddau er mwyn lleihau tlodi yng Nghymru a thrwy hynny gyfrannu at yr ymrwymadau a wnaed yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Fel rhan o waith ymchwil Cam 2, aseswyd effeithiau uniongyrchol y diwygiadau lles ar lefel Cymru o ran nifer yr unigolion/aelwydydd yr effeithiwyd arnynt a'r effeithiau ar incwm. Lle y bo modd, mae'r adroddiad hwn yn diweddarau'r amcangyfrifon ar gyfer Cymru. Er enghraifft, lle mae Trysorlys EM / yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi diwygio costau polisiau a'r niferoedd dan sylw. Ceir crynodeb o'r amcangyfrifon hyn ym Mhennod 2.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi asesiad o effeithiau posibl diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Craffwyd ar 14³ o newidiadau i fudd-daliadau a chredydau treth er mwyn asesu eu heffaith ar y 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru. Lle y bo modd, mae'r effeithiau canlynol wedi cael eu meintoli:

- nifer yr unigolion/aelwydydd yr effeithiwyd arnynt;
- colled gyfartalog mewn incwm blyneddol fesul unigolyn/aelwyd dan sylw;
- cyfanswm yr incwm blyneddol a gollwyd fesul ardal awdurdod lleol;


³ Mae'r diwygiadau a ddadansoddwyd yn cynnwys: Diwygiadau 2011-12 i Lwfans Tai Lleol y Budd-dal Tai, Budd-dal Tai, Budd-dal Tai: cynnydd yn y trothwy oedran o 25 i 35 ar gyfer y Gyfradd Llety a Rennir, Budd-dal Tai: cynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r 30^{ain} ganradd o renti'r farchnad leol, Budd-dal Tai: cyflwyno meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol, y Cap ar Fudd-dal Aelwydydd, Cynllun Lleihau'r Dreth Gyngor, cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol yn lle'r Lwfans Byw i'r Anabl, terfyn amser ar y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol, Budd-dal Plant - rhewi cyfraddau, Budd-dal Plant - tapro, Credyd Treth Plant - dileu'r ail drothwy incwm, Credyd Treth Gwaith - cynyddu'r gofyniad o ran oriau i gyplau sydd â phlant, uwchraddio o 1 y cant, newid i uwchraddio budd-daliadau a chredydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi. Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r diwygiadau hyn ym Mhennod 3.

- y golled gyfartalog flynyddol fesul oedolyn o oedran gweithio (h.y. cyfanswm yr incwm a gollwyd mewn ardal awdurdod lleol wedi'i rannu â'r boblogaeth o oedran gweithio).

Ceir crynodeb o'r amcangyfrifon hyn ym Mhennod 3, sydd wedi'i strwythuro yn ôl pob diwygiad lles unigol. Mae hyn yn cymharu effaith diwygiad penodol o fewn ardaloedd awdurdodau lleol.

I ddarllenwyr sydd am weld effeithiau diwygiadau lles ar gyfer ardal awdurdod lleol penodol, bydd **Atodiad 1** yn ddefnyddiol. Mae wedi'i strwythuro yn ôl awdurdod lleol ac mae'n cyflwyno effaith gwahanol ddiwygiadau lles yn yr ardal benodol honno (o gymharu â'r effaith gyfartalog i Gymru gyfan). Ceir amlinelliad o'r ffynonellau data a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn **Atodiad 2**.

2. Effaith diwygiadau lles ar Gymru, gyfan





Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru. Noder: Mae TAP ond yn cwmpasu colli hawliadau a thybir y caiff ei weithredu'n llawn erbyn 2015/16 er na fwriedir i hyn ddigwydd tan 2018/19. Mae'r golled ariannol o ganlyniad i rewi cyfraddau Budd-dal Plant yn ymwneud â 2013/14 (h.y. blwyddyn olaf rhewi'r cyfraddau).

- Amcangyfrifir y bydd y newidiadau polisi a aseswyd yn yr adroddiad hwn yn lleihau hawliadau blynyddol i fudd-daliadau a chredydau treth yng Nghymru tua **£900 miliwn** yn 2015/16. Fel y dengys y siart uchod, gellir priodoli tua hanner y cyfanswm a gollwyd yng Nghymru i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio*. Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, amcangyfrifir y bydd gwariant ar fudd-daliadau a chredydau treth tua £6 biliwn ac y bydd incwm aelwydydd crynswth i'w wario tua £45 biliwn yn 2015/16 yng Nghymru (amcangyfrifon Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau, CThEM, SYG a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol).
- O ran y diwygiadau lles a ddadansoddwyd, gellir priodoli'r effeithiau mwyaf a amcangyfrifwyd yng Nghymru yn 2015/16 i'r canlynol:
 - Y newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth yn ôl y **Mynegai Prisiau Defnyddwyr** yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi;
 - Uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a BP **1 y cant** yn hytrach na phrisiau;
 - Colli'r hawl i gael **LBA**;
 - Pennu terfyn o flwyddyn ar gyfer **LCCh cyfrannol** i'r rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith

* Mae'n cynnwys: Newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi), cap o 1% ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau treth (heb gynnwys budd-daliadau i'r anabl a gofalwyr) a Budd-dal Plant, cynyddu cyfraddau LTLI yn ôl y 30ain ganradd o renti ar y farchnad leol yn hytrach na'r canolrif (fel rhan o ddiwygiadau 2011-12 i'r LTLI), a chynyddu cyfraddau LTLI yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r 30ain ganradd o renti ar y farchnad leol.

Nifer yr unigolion/aelwydydd yr effeithiwyd arnynt a'r golled gyfartalog fesul unigolyn/aelwyd dan sylw



Ffynhonnell: Amrywiol gan gynnwys amcangyfrifon Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM. Noder: mae'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt a'r incwm a gollwyd ar gyfartaledd yn ymwneud ag aelwydydd ar gyfer pob newid polisi yn y siart uchod ac eithrio TAP a LCCh, sy'n ymwneud ag unigolion.

Dim data ar gyfanswm yr hawlwr yr effeithiwyd arnynt gan y newid i uwchraddio budd-daliadau/credydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a'r cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant.

*Colled gyfartalog i unigolion/aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan y cap o 1 y cant, tapro BP, Budd-dal Tai: mae mynegeo yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a LCCh â therfyn amser yn seiliedig ar amcangyfrifon i Brydain Fawr. Nid oes data ar gyfer y golled gyfartalog i hawlwr yr effeithiwyd arnynt gan y newid i uwchraddio budd-daliadau/credydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

- Er mai rhewi cyfraddau BP sy'n effeithio ar y nifer fwyaf o deuluoedd (373,000) o gymharu â'r diwygiadau lles eraill a ddadansoddwyd, mae'r golled ariannol fesul hawlwr yr effeithiwyd arno yn gymharol fach (£130 y flwyddyn). Mae'r un peth yn debygol o fod yn wir am y newid i uwchraddio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau/credydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a'r cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant.
- Mae'r diwygiadau eraill yn effeithio ar lai o hawlwr ond maent yn golygu mwy o golled ariannol i'r rhai yr effeithiwyd arnynt (hyd at £3,850 y flwyddyn).

Crynodeb o'r effeithiau – Cymru⁴

Y dyddiad y cyflwynir y polisi	Budd-dal / credyd treth	Newid polisi	Nifer yr unigolion / aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru	Incwm a gollwyd y flwyddyn		
				Cymru	Fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru	Fesul unigolyn/ael wyd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru
Ebrill 2011	Yn effeithio ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth	Newid i fynegoio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi.	Budd-daliadau - Lwfans Gofalwr, LBA, LCCh/Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith a Budd-dal Gwraig Weddw: 350,000 o hawlwyd o oedran gweithio Credydau Treth: 300,000 o deuluoedd BT: 240,000 o hawlwyd Budd-dal y Dreth Gyngor (BDG): 330,000 o hawlwyd BP: 370,000 o deuluoedd Noder: bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y rhai sy'n cael budd-daliadau a chredydau treth.	£260m	£134	Dd/G

⁴ Daw'r tabl hwn o adroddiad Llywodraeth Cymru 'Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU – dadansoddiad Cam 2', ac mae wedi cael ei ddiweddarw lle y bo angen. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â ffynonellau o ddata yn adroddiad Cam 2 ac **Atodiad 2** i'r adroddiad hwn. Mae colledion ariannol amcangyfrifedig yn ymwneud ag effeithiau blynyddol yn 2015/16 ac eithrio rhewi cyfraddau Budd-dal Plant (2013/14), Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (2013/14) a Chredyd Cynhwysol (2014/15). Tybir y caiff y Taliad Annibyniaeth Personol ei gyflwyno'n llawn erbyn 2015/16. Fodd bynnag, ni fwriedir i hyn ddigwydd tan 2018/19.

Y dyddiad y cyflwynir y polisi	Budd-dal / credyd treth	Newid polisi	Nifer yr unigolion / aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru	Incwm a gollwyd y flwyddyn		
				Cymru	Fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru	Fesul unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru
Ebrill 2011	BT	Cyfyngu lefelau LTLI i'r gyfradd ar gyfer 4 ystafell wely a chymhwyso uchafswm cap wythnosol; dileu'r ddarpariaeth ar gyfer hawlwyd i gadw hyd at £15 yr wythnos lle mae eu rhent yn is na chyfradd y LTLI; a, newid y sail dros bennu cyfraddau LTLI o'r canolrif i'r 30ain ganradd o renti'r farchnad leol.	48,600 o hawlwyd	£24m	£12	£490
	BP	Cyfraddau wedi'u rhewi am dair blynedd o 2011-12.	373,000 o aelwydydd	£47m	£24	£130
Ionawr 2012	BT	Cynyddu'r trothwy oedran ar gyfer cyfradd llety a rennir y BT o 25 i 35.	3,100 o hawlwyd	£4m	£2	£1240
Ebrill 2012	LCCh cyfrannol	Terfyn amser o flwyddyn ar gyfer LCCh cyfrannol i'r rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith.	56,000 o hawlwyd	£132m	£68	£2390
	Credyd Treth Gwaith (CTG)	Cynnydd yn y gofyniad o ran oriau gwaith i gyplau sydd â phlant o 16 i 24 awr.	9,400 o aelwydydd	£36m	£19	£3,848 (uchafswm)
Ebrill 2012	Credyd Treth Plant (CTP)	Dileu'r ail drothwy incwm.	43,700 o aelwydydd	£24m	£12	£520 (uchafswm)

Y dyddiad y cyflwynir y polisi	Budd-dal / credyd treth	Newid polisi	Nifer yr unigolion / aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru	Incwm a gollwyd y flwyddyn		
				Cymru	Fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru	Fesul unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru
Ionawr 2013	BP	Caiff ei dynnu'n ôl yn raddol lle mae gan rywun yn y cartref incwm trethadwy sydd dros £50,000.	31,000 o aelwydydd	£41m	£21	£1300
Ebrill 2013	BT	Uwchraddio cyfraddau LTLI yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 2013-14 (yn hytrach na'r 30ain ganradd o renti'r farchnad leol).	48,600 o hawlwyd	£15m	£8	£312 (cyfartaledd Prydain Fawr, dim ffigur i Gymru ar gael)
	BT	Cyfyngu ar y swm o BT a delir i hawlwyd sy'n byw mewn tai cymdeithasol y tybir bod eu llety wedi'i danfeddiannu.	33,900 o hawlwyd	£23m	£12	£682
	Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	Cyfyngu ar y swm o daliadau lles y gall aelwyd o oedran gweithio ei gael (£500 yr wythnos fesul aelwyd cwpl a rhiant unigol a £350 yr wythnos ar gyfer aelwydydd person sengl lle nad oes plant).	1,100 o aelwydydd	£4m	£2	£3,536

Y dyddiad y cyflwynir y polisi	Budd-dal / credyd treth	Newid polisi	Nifer yr unigolion / aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru	Incwm a gollwyd y flwyddyn		
				Cymru	Fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru	Fesul unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru
Ebrill 2013	Y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio a chredydau treth (heb gynnwys budd-daliadau anabledd a gofalwyr) a BP	Budd-daliadau dewisol a chredydau treth i'r rhai o oedran gweithio: cynnydd o 1% am dair blynedd o 2013-14. BP: cynnydd o 1% am ddwy flynedd o 2014-15 LTLI: cynnydd o 1% am ddwy flynedd o 2014-15 Noder: nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys effaith y Gronfa Fforddiadwyedd Wedi'i Thargedu.	Hawlwyr budd-daliadau o oedran gweithio = 340,000 Teuluoedd sy'n cael credydau treth = 250,000 Teuluoedd sy'n cael BP = 370,000. Hawlwyr BT = 250,000. Noder: bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y grwpiau hyn.	£170m	£87	Budd-daliadau dewisol oedran gweithio, credydau treth a BP: £156 (cyfartaledd Prydain Fawr). LTLI: £156 (cyfartaledd Prydain Fawr).
Ebrill 2013 - gogledd Lloegr. Mehefin 2013 - hawlwyr newydd yng Nghymru. Hydref 2013 - hawlwyr presennol yng Nghymru.	LBA / TAP	Disodli'r LBA i bobl 16-64 oed gan fudd-dal newydd (TAP). Mae colled ariannol a'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt yn cwmpasu'r rhai sy'n colli eu hawliad i gyd. Nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys yr effaith ar hawlwyr sy'n cael dyfarniad uwch/is/digyfnewid.	42,500 o hawlwyr	£153m	£79	£3,588

Y dyddiad y cyflwynir y polisi	Budd-dal / credyd treth	Newid polisi	Nifer yr unigolion/aelwydydd yr effeithiwyd arnynt	Effaith ar incwm y flwyddyn		
				Cymru	Fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru	Fesul unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru
Ebrill 2013	Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Ym mis Ebrill 2013, trosglwyddodd Llywodraeth y DU gyfrifoldeb am roi cymorth i deuluoedd incwm isel gyda'u treth gyngor a thorrodd y cyllid 10 y cant. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud iawn am y diffyg o £22 miliwn yn 2013-14.	328,500 o aelwydydd (Tybir yr effeithir ar bob un sy'n hawlio BDG. Os mai dim ond y rhai nad ydynt yn bensiynwyr yr effeithiwyd arnynt byddai'r boblogaeth yr effeithiwyd arni yn llai ond byddai'r diogelwch cyfartalog fesul aelwyd yn fwy).	Diogelwch gwerth £22m (2013/14)	£11	£67
Ebrill 2013: Pathfinder, Gogledd-orllewin Lloegr. Mehefin 2013: Parhau i gyflwyno Pathfinder. Hydref 2013 - Mawrth 2014: 6 Chanolfan Gwaith gan gynnwys Shotton.	Credyd Cynhwysol (CC)	Budd-dal lles unigol newydd a fydd yn disodli'r budd-daliadau a chredydau treth prawf modd canlynol ar gyfer oedolion o oedran gweithio: • Cymhorthdal Incwm • LCG yn seiliedig ar incwm • LCCh yn seiliedig ar incwm • CTG • CTP • BT.	Yn sgil cyflwyno CC bydd rhai ar eu colled a rhai ar eu hennill. Aelwydydd nad yw eu hawliad wedi newid o dan CC = 100,000. Aelwydydd y mae eu hawliad wedi gostwng o dan CC = 200,000. Aelwydydd y mae eu hawliad wedi cynyddu o dan CC = 200,000	Enillion net = £22m	Enillion = £11	Gostyngiad cyfartalog fesul aelwyd sydd ei cholled = £1,800. Cynnydd cyfartalog fesul aelwyd sydd ar ei hennill = £1,908 Noder: heb gynnwys effaith diogelwch trosiannol.

3. Effaith diwygiadau lles unigol ar ardaloedd awdurdodau lleol

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau asesiad o effaith y 14 o ddiwygiadau lles ar ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r diwygiadau lles a aseswyd yn rhai lle mae digon o ddata i asesu eu heffaith ar lefel awdurdod lleol. Oherwydd prinder data lleol ar gyfer rhai diwygiadau, gan gynnwys CC, nid yw'r asesiad hwn yn rhoi darlun cyflawn o effaith bosibl diwygiadau lles llywodraeth glymblaid y DU. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r diwygiadau sylweddol (e.e. newid i uwchraddio budd-daliadau a chredydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn rhan o'r asesiad hwn.

Lle y bo modd, ar gyfer pob un o'r diwygiadau, mae'r asesiad hwn yn cynnwys amcangyfrif o'r canlynol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol:

- a) nifer yr unigolion/aelwydydd yr effeithiwyd arnynt;
- b) incwm a gollwyd ar gyfartaledd fesul unigolyn/aelwyd dan sylw;
- c) cyfanswm yr incwm a gollwyd fesul ardal awdurdod lleol;
- d) cyfanswm yr incwm a gollwyd ar gyfartaledd fesul oedolyn o'r oedran gweithio.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r diwygiadau, mae a), c) a d) wedi'u meintio. Fodd bynnag, ar gyfer rhai o'r diwygiadau, er enghraifft, y newid i uwchraddio budd-daliadau a chredydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi, ni fu modd cael cyfanswm yr unigolion/aelwydydd yr effeithiwyd arnynt, a hynny am fod y newid yn y broses uwchraddio yn debygol o effeithio ar fudd-daliadau/credydau treth lluosog a hawli'r gan unigolyn/aelwyd. Felly, bydd crynhoi'r llwythi achos ar gyfer pob un o'r budd-daliadau hyn yr effeithir arnynt (e.e. BT a LCG) yn arwain at gyfrif dwbl. At hynny, dim ond ar gyfer pedwar o'r diwygiadau lles a ddadansoddwyd, sef y diwygiadau i'r LTLI a gyflwynwyd yn 2011-12, y mae data ar yr incwm a gollwyd ar gyfartaledd fesul unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt (b) ar gael, BT: Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn y sector rhentu cymdeithasol, BT: Cynyddu trothwy oedran y gyfradd llety a rennir o 25 i 35 oed a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r data hyn yn amrywio yn ôl ardal awdurdod lleol gan adlewyrchu gwahaniaethau yn rhenti'r farchnad leol a nifer yr ystafelloedd gwely y tybir eu bod yn ddiangen yn y sector rhentu cymdeithasol, er enghraifft.

O ran y diwygiadau lle na fu modd amcangyfrif yr incwm a gollwyd ar gyfartaledd fesul unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt (sef diwygiadau nad ydynt yn ymwneud â BT yn bennaf) tybid bod yr incwm a gollwyd ar gyfartaledd yr un fath i bob unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt waeth ym mha ardal awdurdod lleol y maent yn byw. Ond efallai nad felly y mae mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae hyn yn fwy gwir am y diwygiadau i'r Budd-dal Tai (lle mae data lleol ar gael) na'r diwygiadau eraill.

Wrth gyfeirio at golledion fesul unigolyn/aelwyd yr effeithiwyd arnynt, bydd y rhain naill ai yn golledion 'gwirioneddol' neu'n golledion 'tybiannol', er enghraifft, ni fyddai hawlwyd newydd yn gweld unrhyw newid yn eu budd-daliadau fel y cyfryw, ond byddent yn cael lefel is o fudd-daliadau na'r hyn y byddent wedi'i gael pe baent wedi hawlio o dan y trefniadau blaenorol.

Mae effeithiau ariannol yn ymwneud â 2015/16. Dewiswyd y flwyddyn hon oherwydd bydd y rhan fwyaf o'r diwygiadau a ddadansoddwyd wedi'u cyflwyno'n llawn erbyn hynny, ac eithrio TAP, y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei weithredu'n llawn erbyn mis Hydref 2018. At ddiben y dadansoddiad hwn, tybir y caiff TAP ei gyflwyno'n llawn erbyn 2015/16.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau data yn y dadansoddiad hwn gan gynnwys asesiadau o'r effaith gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM (er nad yw'r rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol), amcangyfrifon Trysorlys EM o arbedion ariannol o ganlyniad i benderfyniadau polisi Llywodraeth y DU a data ar lwythi achos budd-daliadau a threthi credyd a gwariant. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data ac amlinellid o'r fethodoleg a ddefnyddir yn **Atodiad 2**.

Mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrifon yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar fodolau sefydlog ac felly nad ydynt yn ystyried unrhyw effeithiau ymddygiadol megis hawlwyd yn cael cyflogaeth neu'n symud tŷ. Efallai y bydd y gwelliant ar gyfartaledd mewn cymhelliannau ariannol i weithio yn arwain at hawlwyd yn gwneud iawn am rywfaint o'r gostyngiad yn eu budd-daliadau/credydau treth neu'r cyfan. Fodd bynnag, o blith y rhai sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yng Nghymru, mae 60% yn hawlio budd-daliadau salwch, er enghraifft, LCCh neu Fudd-dal Analluogrwydd/Lwfans Anabledd Difrifol. At hynny, o blith y rhai sydd â hawl i gael LCCh, mae tua 50% yn y Grŵp Cymorth (h.y. mae ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd difrifol), ac mae tua 60% o'r rhai sydd â hawl i Fudd-dal Analluogrwydd yn hawlio yn ôl y gyfradd hirdymor (h.y. maent wedi bod yn sâl ers dros flwyddyn) (ffynhonnell: Nomis, data Mai 2013). Awgryma hyn mai cyfyngedig yw'r cyfle i gael cyflogaeth. Mae hyn yn unol â'r dadansoddiad a wnaed gan Adam a Phillips (2013), sy'n rhagweld y bydd effaith y diwygiadau lles ar y cyflenwad o lafur yng Nghymru yn gymharol fach (cynnydd o 5,000 o bobl neu 0.3 pwynt canrannol), ac y bydd yn dibynnu'n fawr ar amodau economaidd ehangach.

Nid yw'r gwaith ymchwil yn ystyried unrhyw incwm ychwanegol a gollwyd oherwydd cosbau budd-daliadau ychwaith (gweler tudalennau 69-72).

I'r rhai y mae'r diwygiadau lles yn effeithio ar eu hincwm, efallai y bydd newidiadau canlyniadol mewn gwariant a sgil-effeithiau ehangach i'r economi. Er enghraifft, mae llai o arian ym mhocedi pobl yn golygu eu bod yn prynu llai o nwyddau a gwasanaethau, mae'r cwmnïau sy'n eu cynhyrchu wedyn yn cyflogi llai o bobl, gan olygu bod llai o arian i'w wario gan y bobl hynny, ac ati. Mae lluosyddion cyllidol yn mesur effaith newid mewn gwariant ar fudd-daliadau a chredydau treth ar faint yr economi yn y byrdymor. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn defnyddio lluosydd o 0.6 ar gyfer newidiadau mewn gwariant ar

lles (tua maint toriadau llywodraeth glymblaid y DU, h.y. 1 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth). Awgryma rhywfaint o dystiolaeth y gall effeithiau lluosydd fod yn fwy yn ystod cyfnodau o wendid economaidd. Fodd bynnag, os bydd y diwygiadau lles yn llwyddo i gynyddu cyflogaeth, yn yr hirdymor, gall hyn arwain at gynydd mewn cynnyrch economaidd.

Trosolwg o'r canfyddiadau

Safle	Ardal awdurdod lleol	Colled gyfartalog fesul oedolion o oedran gweithio £ y flwyddyn
1.	Castell-nedd Port Talbot	606
2.	Blaenau Gwent	585
3.	Merthyr Tudful	580
4.	Pen-y-bont ar Ogwr	548
5.	Rhondda Cynon Taf	543
6.	Caerffili	541
7.	Torfaen	539
8.	Sir Ddinbych	522
9.	Casnewydd	508
10.	Abertawe	486
11.	Sir Gaerfyrddin	485
12.	Conwy	484
	CYMRU	480
13.	Sir Benfro	470
14.	Ynys Môn	457
15.	Wrecsam	449
16.	Bro Morgannwg	436
17.	Caerdydd	433
18.	Sir y Fflint	410
19.	Sir Fynwy	394
20.	Powys	391
21.	Gwynedd	373
22.	Ceredigion	363

Fel y dengys y tabl uchod a'r siart a'r map ar dudalen 21 a 22:

- Amcangyfrifir mai yng Nghastell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful y bydd y diwygiadau lles a ddadansoddwyd yn cael yr effaith fwyaf. Er y bydd y colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd colled flynyddol gyfartalog o tua £600 fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn yn 2015/16 o gymharu â £500 i Gymru gyfan.
- Mae bron chwarter y boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, sef y gyfran uchaf yng Nghymru. Effeithir yn benodol arnynt o ganlyniad i'r newidiadau i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio, y terfyn amser ar y LCCh cyfrannol, cyflwyno TAP a'r meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol. Mae

hyn yn adlewyrchu'r cyfraddau hawlwy'r budd-daliadau oedran gweithio cyffredinol cymharol uchel, yn enwedig o ran budd-daliadau anabledd a salwch, a'r gyfran uchel o stoc tai rhent sydd yn y sector rhentu cymdeithasol.

- Ar y pegwn arall, mae'r diwygiadau lles a ddadansoddwyd yn cael llawer llai o effaith, ar gyfartaledd, ym Mhowys, Gwynedd a Cheredigion. Unwaith eto, er y bydd y colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd colled flynyddol gyfartalog o tua £400 fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn yn 2015/16, sef tua dwy ran o dair o'r gollod a welir yn yr ardaloedd lle ceir yr effaith fwyaf.
- Mae ychydig dros un o bob deg o'r boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, sef y gyfran isaf yng Nghymru. Gan adlewyrchu'r cyfraddau hawlwy'r budd-daliadau cymharol isel, mae'r ardaloedd hyn yn gwneud yn eithaf da o ran effeithiau'r holl ddiwygiadau lles a ddadansoddwyd.
- Er mwyn rhoi'r colledion hyn yn eu cyd-destun, mae'n ddefnyddiol eu mynegi fel cyfran o incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen. Er nad yw'r data hyn ar gael ar lefel awdurdod lleol, mae ar gael ar lefel NUTS3 (h.y. grwpiau o awdurdodau lleol). Fel y crynhoir yn y tabl isod, mae'r incwm a gollwyd ar gyfartaledd fesul oedolyn o oedran gweithio ym mhob ardal yn amrywio o 2% (Powys) i 4% (Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, y Cymoedd Canolog a Chymoedd Gwent) o incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen. Mae'r incwm a gollwyd ar gyfartaledd fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru gyfan yn hafal i 3% o incwm aelwydydd crynswth y pen i'w wario.

Ardal	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio (£ y flwyddyn)	Incwm a gollwyd fel caran o incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen⁵
Cymoedd Canolog (Merthyr Tydfil a Rhondda Cynon Taf)	551	4%
Cymoedd Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen)	549	4%
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot	577	4%
Abertawe	486	3%
Conwy a Sir Ddinbych	502	3%

⁵ Mae ffigurau ar gyfer incwm aelwydydd crynswth i'w wario yn seiliedig ar ddata 2011 (ffynhonnell: Stats Cymru) wedi uwchraddio i brisiau 2015/16 gan ddefnyddio'r twf a ragwelir mewn incymau (ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Economic and Fiscal Outlook – Rhagfyr 2013).

Ardal	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio (£ y flwyddyn)	Incwm a gollwyd fel caran o incwm aelwydydd crynswth i'w wario y pen ⁶
De-orllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro)	455	3%
Ynys Môn	457	3%
Sir Fynwy a Chasnewydd	465	3%
Sir y Fflint a Wrecsam	428	3%
Caerdydd a Bro Morgannwg	434	3%
Gwynedd	373	3%
Powys	391	2%
CYMRU	480	3%

- Mae safleoedd cyffredinol ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar golledion cyfartalog fesul oedolion o oedran gweithio yn gyson yn fras â gwaith ymchwil arall sydd wedi asesu effaith diwygiadau lles yn lleol yng Nghymru (e.e. Beatty a Fothergill, 2013).
- Mae'r canfyddiadau uchod yn seiliedig ar golledion cyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae'n werth nodi, o fewn rhai o'r ardaloedd awdurdodau lleol hyn yr ymddengys bod y diwygiadau lles ond yn cael effaith fach (e.e. Caerdydd) bod rhai rhannau lle gall yr effaith fod cymaint ag y mae mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle ceir yr effaith fwyaf (e.e. Blaenau Gwent). Fodd bynnag, caiff hyn ei gelu wrth bennu cyfartaledd i awdurdod lleol mawr.
- Ffordd arall o edrych ar yr effeithiau yw edrych ar gyfrannau cyfanswm colledion Cymru yn ôl pob ardal awdurdod lleol. Dangosir hyn yn y tabl dros y dudalen a ddengys mai Caerdydd sy'n cyfrif am y gyfran uchaf o gyfanswm yr incwm a gollwyd yng Nghymru yn unol â'i chyfran o'r boblogaeth o oedran gweithio.


⁶ Mae ffigurau ar gyfer incwm aelwydydd crynswth i'w wario yn seiliedig ar ddata 2011 (ffynhonnell: Stats Cymru) wedi uwchraddio i brisiau 2015/16 gan ddefnyddio'r twf a ragwelir mewn incymau (ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Economic and Fiscal Outlook – Rhagfyr 2013).

Safle	Ardal awdurdod lleol	Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn	% o gyfanswm yr incwm a gollwyd yng Nghymru	% o gyfanswm y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru
	CYMRU	928	100	100
1.	Caerdydd	103	11	12
2.	Rhondda Cynon Taf	81	9	8
3.	Abertawe	75	8	8
4.	Caerffili	61	7	6
5.	Sir Gaerfyrddin	54	6	6
6.	Castell-nedd Port Talbot	54	6	5
7.	Pen-y-bont ar Ogwr	48	5	5
8.	Casnewydd	47	5	5
9.	Sir y Fflint	39	4	5
10.	Wrecsam	39	4	4
11.	Sir Benfro	34	4	4
12.	Bro Morgannwg	34	4	4
13.	Conwy	33	4	3
14.	Torfaen	31	3	3
15.	Powys	31	3	4
16.	Sir Ddinbych	30	3	3
17.	Gwynedd	28	3	4
18.	Blaenau Gwent	26	3	2
19.	Sir Fynwy	22	2	3
20.	Merthyr Tudful	22	2	2
21.	Ynys Môn	19	2	2
22.	Ceredigion	18	2	3

- Er mwyn rhoi cyfanswm yr incwm a gollwyd yn ei gyd-destun, mae'n ddefnyddiol ei fynegi fel cyfran o incwm aelwydydd crynswth i'w wario. Fel y sonnir uchod, er nad yw data ar incwm aelwydydd crynswth i'w wario ar gael, ar lefel awdurdod lleol, mae ar gael ar lefel NUTS3. Fel y crynhoir yn y tabl drosodd, mae cyfanswm yr incwm a gollwyd ym mhob ardal yn amrywio o 1% (Powys) i 3% (Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot, y Cymoedd Canolog a Chymoedd Gwent) o incwm aelwydydd crynswth i'w wario. Mae cyfanswm yr incwm a gollwyd yng Nghymru gyfan yn hafal i 2% o incwm aelwydydd crynswth i'w wario.

Ardal	Cyfanswm yr incwm a gollwyd (£ miliwn)	Cyfanswm yr incwm a gollwyd fel canran o incwm aelwydydd crynswth i'w wario⁷
Cymoedd Canolog (Merthyr Tydfil a Rhondda Cynon Taf)	103	3%
Cymoedd Gwent (Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen)	118	3%
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot	102	3%
Abertawe	75	2%
Conwy a Sir Ddinbych	62	2%
De-orllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro)	106	2%
Caerdydd a Bro Morgannwg	137	2%
Sir Fynwy a Chasnewydd	69	2%
Sir y Fflint a Wrecsam	78	2%
Ynys Môn	19	2%
Gwynedd	28	2%
Powys	31	1%
CYMRU	928	2%

⁷ Mae ffigurau ar gyfer incwm aelwydydd crynswth i'w wario yn seiliedig ar ddata 2011 (ffynhonnell: Stats Cymru) wedi uwchraddio i brisiau 2015/16 gan ddefnyddio'r twf a ragwelir mewn incymau (ffynhonnell: Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Economic and Fiscal Outlook – Rhagfyr 2013).



Effaith flynyddol gyfun diwygiadau lles (2015/16)

Map wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth

Mae Awdurdodau Lleol yn
gymesur â'u poblogaeth

10,000 o bobl

2,500 o bobl

Colled ariannol fesul oedolyn o
oedran gweithio £ y flwyddyn

360 - 399


400 - 499

500 - 599

600 - 610

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru

Colled ariannol fesul oedolyn o oedran
gweithio i Gymru gyfan: **£480**



Ffin Awdurdod Lleol


© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14

Rhagfyr 2013

Newid i fynegeio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi


Cyn mis Ebrill 2011, roedd y rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth yn cael eu huwchraddio gan y Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi. Ers hynny, mae'r polisi uwchraddio wedi newid i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n is yn gyffredinol.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr unigolion / aelwydydd yr effeithiwyd arnynt	Colled ariannol cyfartalog fesul hawliwr/aelwyd sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Blaenau Gwent	168	Dd/G	Dd/G	7
2.	Castell-nedd Port Talbot	166			15
3.	Merthyr Tudful	166			6
4.	Rhondda Cynon Taf	155			23
5.	Caerffili	153			17
6.	Torfaen	153			9
7.	Sir Ddinbych	147			8
8.	Pen-y-bont ar Ogwr	147			13
9.	Casnewydd	140			13
10.	Sir Gaerfyrddin	138			15
11.	Conwy	138			9
12.	Abertawe	136			21
	Cymru	135			260
13.	Wreccsam	128			11
14.	Ynys Môn	127			5
15.	Sir Benfro	125			9
16.	Bro Morgannwg	118			9
17.	Caerdydd	117			28
18.	Sir y Fflint	114			11
19.	Powys	112			9
20.	Gwynedd	109			8
21.	Sir Fynwy	103			6
22.	Ceredigion	101			5



- Mae safleoedd uchod ardaloedd awdurdodau lleol o ran effaith y newid mewn mynegai arnynt yn debyg iawn i drefn safleoedd awdurdodau lleol yn ôl cyfraddau hawlwy o oedran gweithio (tudalen 78, **Atodiad 1**).
- Yn ôl y disgwyl, yr ardaloedd hynny lle ceir yr effaith fwyaf yw'r rhai sydd â'r cyfraddau hawlwy budd-daliadau uchaf (dros 23% o'r boblogaeth o oedran gweithio).
- Ar y llaw arall, yr ardaloedd lle ceir yr effaith leiaf yw'r rhai sydd â'r cyfraddau hawlwy budd-daliadau isaf (llai na 13% o'r boblogaeth o oedran gweithio).

Newid i fynegeio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau yn ôl y MPD (yn hytrach na'r MPM neu Rossi)



© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14


Tachwedd 2013

Cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant (BP)

Mae'r budd-daliadau oedran gweithio a'r credydau treth canlynol wedi cynyddu 1 y cant eleni (2013/14) a bydd y gyfradd uwchraddio hon yn gymwys hefyd ar gyfer y ddwy flynedd nesaf: prif gyfraddau oedran gweithio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Budd-dal Tai; yr elfen Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith o LCCh; elfennau cwpl a rhiant unigol CTG ac elfen plant CTP; elfennau cyfatebol CC; a Thâl Salwch Statudol ac elfennau cyfradd safonol Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol a Lwfans Mamolaeth. Ni fydd y polisi hwn yn gymwys i'r premiymau o fewn y budd-daliadau hyn sy'n ymwneud ag anabledd, pensiynwyr a chyfrifoldebau gofalu, elfen Grŵp Cymorth LCCh, neu elfennau anabledd credydau treth, a gaiff eu huwchraddio yn ôl yr arfer. Bydd BP a LTLI⁸ yn cynyddu 1 y cant am ddwy flynedd o 2014-15.


Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt	Colled ariannol gyfartalog fesul aelwyd sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Blaenau Gwent	107	Dd/G	Budd-daliadau dewisol oedran gweithio, credydau treth a BP: £156 (ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau 2013a)	5
2.	Merthyr Tudful	104			4
3.	Castell-nedd Port Talbot	101			9
4.	Rhondda Cynon Taf	99			15
5.	Torfaen	97			6
6.	Caerffili	96			11
7.	Sir Ddinbych	95			5
8.	Casnewydd	95			9
9.	Pen-y-bont ar Ogwr	94			8
10.	Conwy	89			6
	Cymru	88			170
11.	Abertawe	87		Cyfraddau LTLI: £156 (ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau 2013h)	13
12.	Sir Gaerfyrddin	85			9
13.	Caerdydd	83			20
14.	Ynys Môn	82			3
15.	Wrecsam	82			7
16.	Sir Benfro	82			6
17.	Bro Morgannwg	80			6
18.	Sir y Fflint	74			7
19.	Powys	70			5
20.	Gwynedd	69			5
21.	Ceredigion	65			3
22.	Sir Fynwy	64			4

⁸ Caiff 30% o'r arbedion o'r mesur hwn ei ddefnyddio i gynyddu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol dros 1 y cant mewn ardaloedd lle mae risg y bydd llety yn mynd yn anfforddiadwy. Cyfeirir at yr arian hwn fel y Gronfa Fforddiadwyedd Wedi'i Thargeddu. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys effaith yr arian hwn. Ceir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad 2**.



- Digwydd y colledion ariannol mwyaf fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd awdurdodau lleol hynny lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn hawlio'r budd-daliadau a'r credydau treth y mae'r cap o 1 y cant yn effeithio arnynt (h.y. Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Tai, Budd-dal Plant, Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant). Dengys tudalennau 78-79 yn **Atodiad 1** bod yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf/leiaf yn gyson yn fras â'r ardaloedd hynny lle ceir y cyfraddau hawlwr budd-daliadau a chredydau treth uchaf/isaf.

Uwchraddio 1 y cant



© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14
Tachwedd 2013


Lwfans Byw i'r Anabl (LBA): Colli'r hawl⁹

Mae LBA yn fudd-dal sy'n darparu cyfraniad arian parod tuag at gostau ychwanegol anghenion sy'n codi o nam neu gyflwr iechyd. Mae'n fudd-dal anghyfrannol nad yw'n cael ei drethu ac nad yw'n dibynnu ar brawf modd, ac mae'n daladwy waeth beth fo statws cyflogaeth unigolyn. Caiff LBA ei ddisodli gan TAP, a gyflwynwyd i bobl 16-64 oed o fis Ebrill 2013, yn raddol. Yng Nghymru, derbyniwyd ceisiadau newydd am TAP ers mis Mehefin 2013 ac mae'r rhai sy'n hawlio LBA wedi dechrau symud i TAP ers mis Hydref 2013. Fel LBA mae i TAP ddwy elfen (yr elfen bywyd beunyddiol ac elfen symudedd). Fodd bynnag, mae gan bob elfen ddwy gyfradd (y gyfradd Safonol a'r gyfradd uwch) yn hytrach na thair.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr hawlwyd yr effeithiwyd arnynt (cyfran y boblogaeth o oedran gweithio ¹⁰ ym mhob ALI)	Colled gyfartalog fesul hawliwr sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Castell-nedd Port Talbot	117	2,900 (3%)	£3,588	10
2.	Merthyr Tudful	111	1,200 (3%)		4
3.	Blaenau Gwent	101	1,200 (3%)		4
4.	Caerffili	99	3,100 (3%)		11
5.	Rhondda Cynon Taf	95	4,000 (3%)		14
6.	Pen-y-bont ar Ogwr	93	2,300 (3%)		8
7.	Torfaen	92	1,500 (3%)		5
8.	Sir Ddinbych	91	1,400 (3%)		5
9.	Sir Gaerfyrddin	87	2,700 (2%)		10
10.	Abertawe	85	3,600 (2%)		13
	Cymru	79	42,500 (2%)		153
11.	Conwy	78	1,500 (2%)		5
12.	Wrecsam	74	1,800 (2%)		6
13.	Sir Benfro	73	1,500 (2%)		5
14.	Casnewydd	73	1,900 (2%)		7
15.	Ynys Môn	69	800 (2%)		3
16.	Sir y Fflint	64	1,700 (2%)		6
17.	Bro Morgannwg	63	1,400 (2%)		5
18.	Powys	63	1,400 (2%)		5
19.	Caerdydd	61	4,000 (2%)		14
20.	Ceredigion	60	800 (2%)		3
21.	Sir Fynwy	58	900 (2%)		3
22.	Gwynedd	54	1,100 (1%)		4


⁹ Dim ond yr effaith ar y rhai sy'n colli eu holl hawliad y mae hyn yn ei chynnwys. Felly nid yw'r amcangyfrifon hyn yn cynnwys yr effaith ar y rhai a fydd yn cael dyfarniad mwy, llai neu ddigyfnewid.

¹⁰ Yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth 16-64 ar gyfer 2018 o ystyried bod nifer yr hawlwyd yr effeithiwyd arnynt yn ymwneud â mis Hydref 2018.



- Amcangyfrifir mai yng Nghastell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful a Blaenau Gwent y bydd colli'r hawl i gael LBA ar ôl cyflwyno TAP yn cael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai hwy sydd â'r cyfraddau hawlwy LBA o oedran gweithio uchaf o blith awdurdodau lleol Cymru (dros 9.0%).
- Yn yr un modd, yng Ngheredigion, Sir Fynwy a Gwynedd y mae'r diwygiad hwn yn cael yr effaith leiaf, sy'n adlewyrchu eu cyfraddau hawlwy LBA o oedran gweithio cymharol isel (5.5% neu is).

Lwfans Byw i'r Anabl: colli hawl



© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14
Tachwedd 2013

Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh) cyfrannol i'r rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith.

Ym mis Hydref 2008, cafodd budd-daliadau a fodolai eisoes a dalwyd ar sail analluogrwydd ac anabledd, hynny yw Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol a Chymhorthdal Incwm, eu disodli â LCCh i bob hawliwr newydd. Gan ddechrau ym mis Hydref 2010, caiff y rhan fwyaf o hawlwyr sy'n derbyn Budd-dal Analluogrwydd, Lwfans Anabledd Difrifol a Chymhorthdal Incwm a delir ar sail salwch neu anabledd eu hasesu er mwyn gweld a ydynt yn gymwys i gael LCCh. P'un ai fel rhan o hawliad newydd neu ailasesu budd-dal analluogrwydd, rhan allweddol o'r gyfundrefn LCCh yw'r broses o Asesu Galluogrwydd Gwaith, a ddefnyddir i asesu gallu i weithio a chymhwysedd i gael budd-dal.

Gellir nodi bod unigolion yn ffit i weithio - bydd eu hawliad yn cau a gall yr hawliwr symud i LCG neu mae'r hawliad yn aros ar agor tra bod her yn erbyn y penderfyniad yn mynd rhagddi, drwy ailystyriaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu apêl i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

Gellir nodi bod gan unigolion Allu Cyfyngedig i Weithio - cânt dderbyn y budd-dal ac fe'u rhoddir yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith. Ni ddisgwylir i'r rhai yn y grŵp hwn weithio, ond cânt gymorth a chefnogaeth i baratoi ar gyfer gwaith lle bo modd.


Gellir nodi bod gan unigolion Allu Cyfyngedig i Weithio a Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith - cânt dderbyn y budd-dal ac fe'u rhoddir yn y grŵp Cymorth. Mae gan y rhai yn y grŵp hwn y namau swyddogaethol mwyaf difrifol ac felly cânt gymorth diamod.

Ceir dau fath o LCCh. Mae LCCh sy'n seiliedig ar incwm yn fudd-dal prawf modd a delir i bobl y tybir na allant weithio ond nad oes ganddynt ddigon o gyfraniadau YG. Rhaid bod cynilion cartref hawlwyr o dan £16,000 ac ni all eu partner fod yn gweithio mwy na 24 awr yr wythnos. Mae LCCh sy'n seiliedig ar gyfraniadau yn fudd-dal nad yw'n destun prawf modd a delir i bobl y tybir na allant weithio ac sydd wedi gwneud digon o gyfraniadau YG.

Ers mis Mai 2012, cyflwynodd Deddf Diwygio Lles 2012 derfyn amser ar gyfer LCCh cyfrannol sef 12 mis i'r rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr hawlwyd yr effeithiwyd arnynt (cyfran y boblogaeth o oedran gweithio ¹¹ ym mhob ALI)	Colled gyfartalog fesul hawliwr sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Castell-nedd Port Talbot	111	4,200 (5%)	£2,390	10
2.	Blaenau Gwent	101	1,900 (4%)		5
3.	Pen-y-bont ar Ogwr	100	3,700 (4%)		9
4.	Merthyr Tudful	87	1,400 (4%)		3
5.	Caerffili	87	4,200 (4%)		10
6.	Rhondda Cynon Taf	87	5,500 (4%)		13
7.	Torfaen	86	2,100 (4%)		5
8.	Ynys Môn	74	1,300 (3%)		3
9.	Sir Gaerfyrddin	72	3,400 (3%)		8
10.	Sir Ddinbych	69	1,700 (3%)		4
	Cymru	68	56,000 (3%)		132
11.	Abertawe	65	4,300 (3%)		10
12.	Casnewydd	65	2,500 (3%)		6
13.	Sir Benfro	65	2,000 (3%)		5
14.	Powys	63	2,100 (3%)		5
15.	Conwy	58	1,700 (3%)		4
16.	Sir y Fflint	58	2,400 (3%)		6
17.	Wrecsam	57	2,100 (2%)		5
18.	Gwynedd	52	1,700 (2%)		4
19.	Sir Fynwy	52	1,200 (2%)		3
20.	Ceredigion	51	1,000 (2%)		2
21.	Bro Morgannwg	49	1,700 (2%)		4
22.	Caerdydd	41	4,100 (2%)		10

¹¹ Yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth 16-64 ar gyfer 2016 o ystyried bod nifer yr hawlwyd yr effeithiwyd arnynt yn ymwneud â 2015/16.



- Amcangyfrifir mai yng Nghastell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Phen-y-bont ar Ogwr y mae'r terfyn amser o flwyddyn ar LCCh cyfrannol i'r rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith yn cael yr effaith fwyaf o blith ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith, o blith holl awdurdodau lleol Cymru, mai hwy sydd â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio sy'n hawlio LCCh.
- Yr ardaloedd awdurdodau lleol lle mae'r diwygiad hwn yn cael yr effaith fwyaf yw'r rhai lle mae colli'r hawl i gael LBA yn cael yr effaith fwyaf hefyd, a hynny am fod bron dau o bob tri hawliwr sy'n cael LBA fel eu prif fudd-dal hefyd yn cael Budd-dal Analluogrwydd/LCCh.
- Yng Ngheredigion, Bro Morgannwg a Chaerdydd y mae'r terfyn amser ar LCCh cyfrannol yn cael yr effaith leiaf, sy'n adlewyrchu eu cyfraddau hawlwyr LCCh cymharol isel.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Cyfrannol: Pennu terfyn amser o flwyddyn i'r rhai yn y Grŵp Gweithgarwch yn Seiliedig ar Waith

Map wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth

Mae Awdurdodau Lleol yn
gymesur â'u poblogaeth

10,000 o bobl



2,500 o bobl



Colled ariannol fesul oedolyn o
oedran gweithio £ y flwyddyn

41 - 59



60 - 79




80 - 99



100 - 111



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru



Ffin Awdurdod Lleol

© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14


Tachwedd 2013

Budd-dal Plant (BP): Rhewi cyfraddau¹²

Ers mis Ebrill 2011, mae cyfraddau BP wedi cael eu rhewi. Bydd hyn yn parhau tan 2013-14.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt (cyfran o gyfanswm y teuluoedd sy'n hawlio BP ym mhob ALI)	Colled gyfartalog fesul teulu sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Casnewydd	26	19,400 (100%)	£130	2
2.	Merthyr Tudful	26	7,900 (100%)		1
3.	Caerffili	26	23,800 (100%)		3
4.	Torfaen	26	12,000 (100%)		2
5.	Rhondda Cynon Taf	26	30,900 (100%)		4
6.	Sir Ddinbych	26	11,600 (100%)		1
7.	Blaenau Gwent	26	9,000 (100%)		1
8.	Bro Morgannwg	26	16,000 (100%)		2
9.	Wrecsam	25	17,400 (100%)		2
10.	Pen-y-bont ar Ogwr	25	17,800 (100%)		2
11.	Sir y Fflint	25	19,200 (100%)		2
12.	Castell-nedd Port Talbot	25	17,600 (100%)		2
13.	Conwy	24	13,100 (100%)		2
14.	Sir Benfro	24	14,100 (100%)		2
	Cymru	24	373,000 (100%)		47
15.	Sir Gaerfyrddin	24	21,500 (100%)		3
16.	Ynys Môn	24	8,000 (100%)		1
17.	Sir Fynwy	24	10,500 (100%)		1
18.	Powys	23	14,600 (100%)		2
19.	Abertawe	23	27,900 (100%)		4
20.	Gwynedd	22	13,000 (100%)		2
21.	Caerdydd	22	40,700 (100%)		5
22.	Ceredigion	19	7,200 (100%)		1


¹² Fel y cyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2012, bydd Budd-dal Plant yn cynyddu 1 y cant am ddwy flynedd o 2014-15.



- Dyma un o'r diwygiadau sy'n amrywio leiaf o ran effaith ledled ardaloedd awdurdodau lleol, a hynny am nad yw'r BP yn dibynnu ar brawf modd o dan y trothwy incwm o £50,000 ac felly nid yw'r hawl iddo wedi'i ystumio tuag at ardaloedd difreintiedig. Mae nifer y rhai sy'n hawlio'n budd-dal hefyd yn uchel (96 y cant, 2010-11¹³).
- At hynny, nid yw cyfran y boblogaeth o dan 16 oed ym mhob ardal awdurdod lleol yn sylweddol wahanol gan amrywio o 15% (Ceredigion) i 20% (Caerffili a Chasnewydd).
- Ar wahân i Geredigion, sydd â'r gyfran isaf o aelwydydd o oedran gweithio sy'n hawlio BP (30%), nid yw'r cyfrannau cyfatebol ar gyfer yr awdurdodau lleol eraill yn wahanol iawn gan amrywio o 35-43%. Yr ardaloedd awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt fwyaf (leiaf) yw'r rhai sydd â'r gyfran uchaf (isaf) o aelwydydd o oedran gweithio sy'n hawlio BP.

¹³ CThEM (2012b) Child Benefit, Child Tax Credit and Working Tax Credit Take-up Rates 2010-11

Budd-dal Plant: Rhewi cyfraddau




© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14
Tachwedd 2013

Budd-dal Plant (BP): Caiff ei dynnu'n ôl yn raddol lle mae gan aelod o'r aelwyd incwm trethadwy sydd dros £50,000


O fis Ionawr 2013, mae BP wedi cael ei dynnu'n ôl lle mae gan aelod o'r aelwyd incwm trethadwy sydd dros £50,000. Drwy newidiadau i dreth incwm, mae wedi cael ei dynnu'n ôl ar 1 y cant am bob £100 a gaiff ei ennill dros £50,000.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt (cyfran o gyfanswm y teuluoedd sy'n hawlio BP ym mhob ALI)	Colled gyfartalog fesul teulu sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Sir Fynwy	50	2,100 (20%)	£1,300	2.8
2.	Caerdydd	38	6,900 (17%)		9.0
3.	Bro Morgannwg	31	1,900 (12%)		2.4
4.	Sir Benfro	25	1,400 (10%)		1.8
5.	Casnewydd	24	1,700 (9%)		2.2
6.	Wrecsam	23	1,500 (9%)		2.0
	Cymru	21	31,000 (8%)		41.0
7.	Sir Ddinbych	21	900 (8%)		1.2
8.	Sir y Fflint	20	1,500 (8%)		1.9
9.	Abertawe	20	2,300 (8%)		3.0
10.	Powys	18	1,100 (7%)		1.4
11.	Merthyr Tudful	18	500 (7%)		0.7
12.	Pen-y-bont ar Ogwr	18	1,200 (7%)		1.6
13.	Conwy	17	900 (7%)		1.2
14.	Torfaen	17	800 (6%)		1.0
15.	Ynys Môn	15	500 (6%)		0.6
16.	Ceredigion	15	600 (8%)		0.7
17.	Sir Gaerfyrddin	14	1,200 (6%)		1.6
18.	Castell-nedd Port Talbot	14	900 (5%)		1.2
19.	Rhondda Cynon Taf	14	1,600 (5%)		2.0
20.	Gwynedd	12	700 (5%)		0.9
21.	Caerffili	11	900 (4%)		1.2
22.	Blaenau Gwent	4	100 (1%)		0.2



- Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar aelwydydd sy'n hawlio BP lle mae un aelod yn ennill incwm trethadwy o fwy na £50,000.
- Yn ôl y disgwyl, yr ardaloedd awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y diwygiad hwn yw'r rhai sydd â chyfrannau uwch na'r cyffredin o swyddi yn eu hardal sy'n talu mwy na £50,000. Er enghraifft, o blith holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, Sir Fynwy, sef yr ardal y mae'r diwygiad hwn yn effeithio arni fwyaf, sydd â'r gyfran uchaf o swyddi sy'n talu mwy na £50,000 (8.5 y cant o gymharu â 4.3 y cant i Gymru gyfan).
- Yng Ngwynedd, Caerffili a Blaenau Gwent y mae'r diwygiad hwn yn cael yr effaith leiaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r gyfran gymharol isel o swyddi ym mhob ardal sy'n talu mwy na £50,000 (2.5% neu is).

Budd-dal Plant: Tapro'r budd-dal i deuluoedd lle mae aelod yn ennill mwy na £50,000




Credyd Treth Gwaith (CTG): Cynnydd yn y gofyniad o ran oriau gwaith i gyplau sydd â phlant o 16 i 24 awr

Mae CTG yn darparu cymorth mewn gwaith i bobl ar incwm isel, heb neu gyda phlant. Cyn mis Ebrill 2012, roedd angen i gyplau sydd â phlant weithio o leiaf 16 awr yr wythnos er mwyn bod yn gymwys i gael CTG. Fodd bynnag, o fis Ebrill 2012, mae angen i gyplau â phlant weithio o leiaf 24 awr yr wythnos rhyngddynt er mwyn bod yn gymwys i gael CTG (gydag o leiaf un person yn gweithio 16 awr yr wythnos). Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar rieni unigol, y mae'r trothwy o 16 awr ar gyfer CTG yn parhau i fod yn gymwys iddynt. Mae'r trothwy o 16 awr hefyd yn parhau i fod yn gymwys i rai grwpiau eraill, gan gynnwys gweithwyr anabl.


Ym marn Llywodraeth y DU bydd y newid hwn yn lleihau'r gwahaniaeth rhwng cyplau a rheini unigol drwy sicrhau ei bod yn ofynnol i un aelod o'r cwpl o leiaf weithio'r un isafswm oriau yr wythnos ag y mae'n rhaid i riant unigol ei wneud.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt (cyfran o gyfanswm y teuluoedd sy'n hawlio CTG ym mhob ALI)	Y golled fwyaf fesul aelwyd sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Yr incwm mwyaf a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Casnewydd	31	730 (11%)	£3,848	2.8
2.	Blaenau Gwent	24	280 (8%)		1.1
3.	Abertawe	23	920 (9%)		3.5
4.	Sir Benfro	23	430 (7%)		1.7
5.	Caerdydd	23	1,390 (10%)		5.4
6.	Conwy	21	370 (7%)		1.4
7.	Ynys Môn	21	230 (7%)		0.9
8.	Sir Gaerfyrddin	20	570 (6%)		2.2
9.	Caerffili	19	570 (7%)		2.2
10.	Sir Ddinbych	19	280 (6%)		1.1
	Cymru	19	9,400 (7%)		36.0
11.	Gwynedd	18	360 (6%)		1.4
12.	Castell-nedd Port Talbot	17	400 (7%)		1.5
13.	Pen-y-bont ar Ogwr	17	400 (7%)		1.5
14.	Merthyr Tudful	17	170 (5%)		0.6
15.	Rhondda Cynon Taf	16	630 (6%)		2.4
16.	Wrecsam	16	350 (6%)		1.4
17.	Bro Morgannwg	16	320 (7%)		1.2
18.	Torfaen	15	230 (5%)		0.9
19.	Ceredigion	14	170 (5%)		0.7
20.	Sir y Fflint	13	330 (5%)		1.3
21.	Sir Fynwy	10	150 (5%)		0.6
22.	Powys	7	150 (2%)		0.6



- Er y gall y rhai yr effeithiwyd arnynt gan y diwygiad hwn weld y colledion blynyddol mwyaf o blith yr holl ddiwygiadau a ddadansoddwyd (hyd at £3,848), mae hwn yn fesur penodol iawn ac felly dim ond ar nifer gymharol fach o deuluoedd yng Nghymru y bydd hyn yn effeithio (tua 9,400 neu 7% o'r rhai sy'n cael CTG).
- O ran yr effaith drwy'r ardaloedd awdurdodau lleol, ceir rhai elfennau tebyg i gyfran yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael CTG a CTP (h.y. teuluoedd â phlant sy'n gweithio). Er enghraifft, mae Sir Benfro a Chonwy ymhlith yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf a'r rhai sydd â'r cyfrannau uchaf o aelwydydd o oedran gweithio sy'n hawlio CTG a CTP. Yn yr un modd, mae Sir Fynwy a Cheredigion ymhlith yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt leiaf a'r rhai sydd â'r cyfrannau isaf o aelwydydd o oedran gweithio sy'n hawlio CTG a CTP. Fodd bynnag, o ystyried natur benodol y mesur hwn, nid oes unrhyw batrwm amlwg.

Credyd Treth Gwaith: Cynnydd yn y gofyniad o ran oriau gwaith i gyplau sydd â phlant o 16 i 24 awr




© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14
Tachwedd 2013

Credyd Treth Plant (CTP): dileu'r ail drothwy incwm

Mae CTP yn dwyn ynghyd gymorth yn seiliedig ar incwm ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gymwys yn un credyd treth, sy'n daladwy i'r prif ofalwr (p'un a ydynt yn oedolion sy'n gweithio ai peidio). Cyn mis Ebrill 2012, ceid dau drothwy incwm ar gyfer CTG a CTP neu hawliadau am CTP yn unig. Defnyddiwyd y trothwy incwm cyntaf (naill ai £6,420 neu £15,860 yn 2011-12) i gyfrifo'r hawl i bob elfen ac eithrio'r elfen teulu o CTP. Dim ond ar gyfer yr elfen teulu y defnyddiwyd yr ail drothwy incwm, a oedd yn parhau i gael ei ddiogelu nes bod incwm wedi cyrraedd yr ail drothwy incwm hwnnw. Nid ffigur penodol oedd yr ail drothwy incwm, roedd yn dibynnu ar amgylchiadau. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o hawl wyr y trothwy oedd £40,000 yn 2011-12 (£50,000 yn 2010-11 ac mewn blynyddoedd cynharach). Uwchlaw'r trothwy hwn roedd yr elfen teulu yn cael ei thapro. O fis Ebrill 2012, dilëwyd yr ail drothwy incwm hwn.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt (cyfran o gyfanswm yr aelwydydd sy'n hawlio CTP ym mhob ALI)	Y golled fwyaf fesul aelwyd sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Yr incwm mwyaf a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Torfaen	15	1,600 (16%)	£520	0.9
2.	Wrecsam	15	2,400 (17%)		1.3
3.	Sir y Fflint	14	2,500 (16%)		1.4
4.	Pen-y-bont ar Ogwr	14	2,300 (16%)		1.2
5.	Castell-nedd Port Talbot	14	2,300 (15%)		1.2
6.	Caerffili	14	2,900 (15%)		1.6
7.	Sir Fynwy	14	1,400 (19%)		0.8
8.	Blaenau Gwent	13	1,100 (14%)		0.6
9.	Rhondda Cynon Taf	13	3,600 (14%)		2.0
10.	Casnewydd	13	2,200 (14%)		1.2
11.	Sir Gaerfyrddin	13	2,600 (15%)		1.4
12.	Sir Ddinbych	12	1,300 (14%)		0.7
13.	Powys	12	1,800 (15%)		1.0
	Cymru	12	43,700 (15%)		24.0
14.	Sir Benfro	12	1,600 (14%)		0.9
15.	Bro Morgannwg	12	1,700 (15%)		0.9
16.	Ynys Môn	12	900 (14%)		0.5
17.	Abertawe	12	3,300 (15%)		1.8
18.	Merthyr Tudful	12	800 (12%)		0.4
19.	Conwy	11	1,400 (13%)		0.8
20.	Gwynedd	10	1,400 (13%)		0.8
21.	Ceredigion	9	800 (14%)		0.4
22.	Caerdydd	9	3,800 (13%)		2.1



- Mae rhywfaint o debygrwydd rhwng safleoedd uchod ardaloedd awdurdodau lleol a chyfran yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n cael CTP. Er enghraifft, mae Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent ymhlith yr ardaloedd yr effeithiwyd fwyaf arnynt. Mae hyn yn gyson â'r ffaith eu bod ymhlith yr ardaloedd hynny sydd â'r cyfraddau uchaf o aelwydydd o oedran gweithio sy'n hawlio CTP (32-33%). Yn yr un modd, mae Caerdydd a Cheredigion ymhlith yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt leiaf. Mae hyn yn gyson â'r gyfradd is o aelwydydd o oedran gweithio sy'n hawlio CTP (22-23%). Fodd bynnag, nid oes patrwm amlwg.

Credyd Treth Plant: dileu'r trothwy ail incwm

Map wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth

Mae Awdurdodau Lleol yn gymesur â'u poblogaeth

10,000 o bobl

2,500 o bobl

Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn


9

10 - 12

13 - 14

15

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru



© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14

Tachwedd 2013


Budd-dâl Tai (BT): Diwygiadau 2011-12 i'r Lwfans Tai Lleol (LTLI)

Mae'r diwygiadau hyn, a gyflwynwyd o fis Ebrill 2011, yn cynnwys:

- cyfyngu ar lefelau LTLI hyd at y gyfradd 4 ystafell wely a chymhwyso uchafswm cap wythnosol;
- dileu'r ddarpariaeth ar gyfer hawlwr i gadw hyd at £15 yr wythnos lle mae eu rhent yn is na chyfradd y LTLI; ,
- newid y sail dros bennu cyfraddau LTLI o'r canolrif i'r 30ain ganradd o renti'r farchnad leol.


Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn
1.	Conwy	21
2.	Sir Benfro	19
3.	Sir Ddinbych	18
4.	Bro Morgannwg	17
5.	Pen-y-bont ar Ogwr	15
6.	Ceredigion	15
7.	Caerdydd	14
8.	Ynys Môn	13
9.	Rhondda Cynon Taf	12
	Cymru	12
10.	Abertawe	12
11.	Casnewydd	11
12.	Castell-nedd Port Talbot	11
13.	Sir Gaerfyrddin	10
14.	Sir y Fflint	10
15.	Caerffili	9
16.	Torfaen	9
17.	Wrecsam	9
18.	Powys	9
19.	Gwynedd	9
20.	Merthyr Tudful	8
21.	Blaenau Gwent	6
22.	Sir Fynwy	6

Nifer y rhai sy'n cael LTLI yr effeithiwyd arnynt (cyfran o'r llwyth achosion LTLI)	Colled ariannol gyfartalog fesul hawliwr sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
3,500 (100%)	410	1.4
2,500 (100%)	570	1.4
2,400 (100%)	430	1.0
2,300 (100%)	590	1.3
2,600 (100%)	510	1.3
1,200 (100%)	580	0.7
5,900 (100%)	580	3.4
900 (100%)	600	0.6
4,400 (100%)	430	1.9
48,600 (100%)	490	24.0
3,500 (100%)	530	1.8
2,300 (100%)	440	1.0
2,600 (100%)	360	0.9
2,800 (100%)	420	1.2
1,700 (100%)	530	0.9
2,200 (100%)	490	1.1
1,000 (100%)	540	0.5
1,300 (100%)	600	0.8
1,300 (100%)	520	0.7
1,300 (100%)	500	0.6
900 (100%)	320	0.3
1,300 (100%)	220	0.3
800 (100%)	440	0.3



- Yr ardaloedd hynny y mae'r diwygiadau i'r LTLI yn effeithio arnynt fwyaf yw'r rhai sydd â chyfran uchel o stoc tai rhent yn y sector rhentu preifat fel arfer. Er enghraifft, yng Nghonwy, yr ardal yr effeithiwyd arni fwyaf, mae tua 60% o stoc tai rhent wedi'i rentu'n breifat o gymharu â thua 30% ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful, y mae'r naill a'r llall ymhlith yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt leiaf.
- Er bod rhai eithriadau, mae'n wir dweud yn gyffredinol bod yr ardaloedd hynny y mae'r diwygiad hwn yn effeithio arnynt yn eithaf llym yn rhai lle mae dyfarniadau wythnosol cyfartalog o'r Budd-dal Tai (sy'n adlewyrchu lefelau rhenti) yn agos i gyfartaledd Cymru yn y sector rhentu preifat (£84 neu'n uwch na hynny ac felly byddent yn colli mwy yn sgil newid y sail dros bennu cyfraddau LTLI o'r canolrif i'r 30ain ganradd o renti'r farchnad leol.
- Byddai hawlwyr presennol yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau hyn wedi cael diogelwch trosiannol yn seiliedig ar eu cyfradd LTLI hyd at naw mis. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer Taliadau Tai Dewisol i helpu'r rhai y mae'r diwygiadau yn effeithio arnynt fwyaf. Fodd bynnag, fel y dangosir ar dudalennau 66-67, mae'r galw am daliadau tai dewisol wedi cynyddu'n sylweddol.

Budd-dal Tai: Diwygiadau i'r Lwfans Tai Lleol a gyflwynwyd yn 2011-12




© Hawffraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14
Tachwedd 2013

Budd-dâl Tai (BT): Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn y Sector Rhentu Cymdeithasol (SRhC)

Ym mis Ebrill 2013, cyflwynwyd meini prawf maint i hawlwyd BT presennol a newydd o oedran gweithio yn y sector rhentu cymdeithasol, sy'n golygu y bydd tenantiaid tai cymdeithasol o oedran gweithio sy'n hawlio Budd-dâl Tai yn gweld gostyngiad yn eu hawliad os tybir eu bod yn byw mewn llety sy'n rhy fawr at eu hanghenion. Caiff yr uchafswm rhent cymwys ei leihau yn ôl cyfradd ganrannol genedlaethol (14% ar gyfer un ystafell wely sbâr a 25% lle mae dwy ystafell wely sbâr neu fwy). Caniateir un ystafell wely ar gyfer pob unigolyn neu gwpl fel rhan o'r aelwyd gyda'r eithriadau canlynol: disgwylir i ddau blentyn o dan 16 o'r un rhyw rannu; disgwylir i ddau blentyn o dan 10 rannu waeth beth fo'u rhyw; caniateir ystafell ychwanegol i denant neu bartner anabl y mae angen gofalwr dibreswyl dros nos arno/arni; caniateir ystafell ychwanegol i ofalwyr maeth cymeradwy ar yr amod eu bod wedi maethu plentyn, neu wedi dod yn ofalwr maeth cymeradwy yn ystod y 12 mis diwethaf; caiff plant sy'n oedolion yn y Lluoedd Arfog eu trin fel rhai sy'n parhau i fyw gartref pan fyddant oddi cartref fel rhan o'u gwaith; a phlant na allant rannu oherwydd eu hanableddau difrifol.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr hawlwyd yr effeithiwyd arnynt (cyfran o'r llwyth achosion BT yn yr SRhC)	Colled ariannol gyfartalog fesul hawliwr sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Torfaen	21	1,700 (23%)	691	1.2
2.	Blaenau Gwent	20	1,500 (26%)	608	0.9
3.	Merthyr Tudful	19	1,100 (26%)	639	0.7
4.	Casnewydd	17	2,200 (23%)	700	1.6
5.	Caerffili	16	2,700 (24%)	692	1.9
6.	Castell-nedd Port Talbot	16	2,200 (24%)	656	1.4
7.	Rhondda Cynon Taf	13	2,800 (23%)	677	1.9
8.	Abertawe	13	2,900 (19%)	672	1.9
9.	Wrecsam	12	1,500 (18%)	693	1.1
	Cymru	12	33,900 (21%)	682	23.1
10.	Sir Gaerfyrddin	12	1,900 (23%)	671	1.3
11.	Gwynedd	11	1,300 (23%)	636	0.8
12.	Caerdydd	11	3,200 (15%)	803	2.5
13.	Pen-y-bont ar Ogwr	11	1,400 (20%)	686	0.9
14.	Ynys Môn	10	700 (23%)	594	0.4
15.	Bro Morgannwg	9	1,000 (21%)	697	0.7
16.	Sir y Fflint	9	1,300 (20%)	657	0.9
17.	Sir Benfro	9	1,000 (18%)	624	0.7
18.	Powys	9	1,000 (20%)	674	0.7
19.	Sir Fynwy	7	600 (15%)	737	0.4
20.	Sir Ddinbych	7	700 (16%)	639	0.4
21.	Conwy	7	600 (13%)	713	0.4
22.	Ceredigion	5	400 (18%)	633	0.3



- Mae cyflwyno meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol yn effeithio ar yr ardaloedd hynny lle mae cyfran uchel o eiddo rhent yn eiddo awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf yw Torfaen, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful lle mae tai cymdeithasol yn cyfrif am tua 70-80% o stoc tai rhent (sy'n sylweddol uwch na'r gyfran i Gymru gyfan - 54%). Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn cynnwys cyfrannau cymharol uchel o'r boblogaeth sy'n hawlio budd-daliadau oedran gweithio (tua 25% ym Mlaenau Gwent o gymharu â 17% i Gymru gyfan).
- Ar Sir Ddinbych, Conwy a Cheredigion y mae'r diwygiad hwn yn effeithio leiaf, sy'n adlewyrchu eu cyfrannau cymharol isel o stoc tai cymdeithasol (cyn ised â 36% o stoc tai rhent yng Ngheredigion).
- Noda gwaith ymchwil diweddar gan Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) (2013) y canlynol:
 - Mae'r diwygiad hwn wedi effeithio ar 22,000 o'u tenantiaid cymdeithasau tai.
 - Dim ond 3% (tua 660 o denantiaid) sydd wedi llwyddo i symud i eiddo llai o faint.
 - Mae 78% o gymdeithasau tai sy'n aelodau o CCC wedi gweld cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent, gyda thros £1 filiwn wedi'i briodoli i'r diwygiad hwn. Mae CCC yn disgwyl i hyn gynyddu i £2 filiwn erbyn mis Ebrill 2014.
 - mae 51% o denantiaid yn talu'r diffyg yn eu rhent yn llawn, 37% yn ei dalu'n rhannol ac nid yw 12% yn talu dim tuag at y diffyg.
 - Mae nifer yr eiddo gwag yn cynyddu gyda thros 700 yn y sector rhentu cymdeithasol yn dod yn gynyddol anodd i'w gosod, gyda llawer yn aros yn wag. Mae CCC yn amcangyfrif bod 90,000 o bobl ar y rhestrau aros ar gyfer tai cymdeithasol.

Budd-dal Tai: Tanfeddiannu tai cymdeithasol

Map wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth

Mae Awdurdodau Lleol yn gymesur â'u poblogaeth

10,000 o bobl

2,500 o bobl

Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn


5 - 9

10 - 13

14 - 18

19 - 21

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru



Ffin Awdurdod Lleol


© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14

Tachwedd 2013

Budd-dâl Tai (BT): Uwchraddio'r Lwfans Tai Lleol (LTLI) yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr

O fis Ebrill 2013, mae codiadau blynyddol yng nghyfraddau LTLI a ddefnyddir i gyfrifo BT ar gyfer hawlwyd yn y sector rhentu preifat wedi'u cyfyngu i godiadau cyfatebol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (yn hytrach na 30^{ain} ganradd o rentu'r farchnad leol). Fodd bynnag, bydd cyfraddau LTLI yn destun cap o 1 y cant am ddwy flynedd o 2014-15.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer y rhai sy'n cael LTLI yr effeithiwyd arnynt (cyfran o'r llwyth achosion LTLI)	Colled gyfartalog fesul unigolyn sy'n cael LTLI ac sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Conwy	16	3,500 (100%)	£312	1.1
2.	Sir Ddinbych	13	2,400 (100%)		0.7
3.	Sir Benfro	11	2,500 (100%)		0.8
4.	Castell-nedd Port Talbot	9	2,600 (100%)		0.8
5.	Rhondda Cynon Taf	9	4,400 (100%)		1.4
6.	Pen-y-bont ar Ogwr	9	2,600 (100%)		0.8
7.	Bro Morgannwg	9	2,300 (100%)		0.7
8.	Blaenau Gwent	9	1,300 (100%)		0.4
9.	Ceredigion	8	1,200 (100%)		0.4
10.	Casnewydd	8	2,300 (100%)		0.7
11.	Sir Gaerfyrddin	8	2,800 (100%)		0.9
	Cymru	8	48,600 (100%)		15.0
12.	Caerdydd	8	5,900 (100%)		1.8
13.	Merthyr Tudful	7	900 (100%)		0.3
14.	Abertawe	7	3,500 (100%)		1.1
15.	Ynys Môn	7	900 (100%)		0.3
16.	Caerffili	6	2,200 (100%)		0.7
17.	Sir y Fflint	6	1,700 (100%)		0.5
18.	Torfaen	5	1,000 (100%)		0.3
19.	Gwynedd	5	1,300 (100%)		0.4
20.	Powys	5	1,300 (100%)		0.4
21.	Wrecsam	5	1,300 (100%)		0.4
22.	Sir Fynwy	4	800 (100%)		0.2



- Yr ardaloedd hynny y mae'r diwygiadau i'r LTLI yn effeithio arnynt fwyaf yw'r rhai sydd â chyfran uchel o stoc tai rhent yn y sector rhentu preifat fel arfer. Er enghraifft, yng Nghonwy, sef yr ardal yr effeithiwyd arni fwyaf, mae tua 60% o stoc tai rhent wedi'i rentu'n breifat. Powys, Wrecsam a Sir Fynwy yw'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt leiaf, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod ganddynt gyfrannau is na'r cyffredin o stoc rhent yn y sector rhentu preifat.
- Er bod rhai eithriadau, mae'n wir dweud yn gyffredinol bod yr ardaloedd hynny y mae'r diwygiad hwn yn effeithio arnynt yn eithaf llym yn rhai lle mae dyfarniadau wythnosol cyfartalog o'r Budd-dal Tai (sy'n adlewyrchu lefelau rhenti) yn agos i gyfartaledd Cymru yn y sector rhentu preifat (£84) neu'n uwch na hynny ac felly byddent yn colli mwy yn sgil newid y sail dros bennu cyfraddau LTLI o'r 30ain ganradd o renti'r farchnad leol i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Map wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth

Mae Awdurdodau Lleol yn gymesur â'u poblogaeth

10,000 o bobl

2,500 o bobl

Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn

4 - 6

7 - 9

10 - 14

15 - 16

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru

Ffin Awdurdod Lleol

Tachwedd 2013


Cap ar Fudd-dal Aelwydydd

Ers mis Ebrill 2013, mae cyfanswm budd-daliadau aelwyd i hawlwr o oedran gweithio wedi cael ei gapio fel na fydd gan aelwydydd sydd heb waith yr hawl i gael mwy mewn budd-daliadau na'r cyflog wythnos cyfartalog ar ôl treth ac Yswiriant Gwladol mwyach. Caiff cyfanswm yr hawl i fudd-daliadau ei gapio am £500 yr wythnos i aelwydydd cyplau a rheini unigol. Caiff lefel hawlio oedolion sengl ei chapio ar £350 yr wythnos. Ceir rhai eithriadau er mwyn diogelu grwpiau penodol rhag y cap.

Mae'r cap yn gymwys i'r cyfanswm y mae aelwyd yn ei gael drwy'r budd-daliadau canlynol: Lwfans Profedigaeth; Lwfans Gofalwr; BP; CTP; LCCh (ac eithrio'r elfen cymorth); Lwfans Gwarcheidwad Budd-dal Tai; Budd-dal Analluogrwydd; Cymhorthdal Incwm; LCG; Lwfans Mamolaeth Lwfans Anabledd Difrifol; a Lwfans Rhiant Gweddwr.


Mae'r rhai sy'n cael CTG neu unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol wedi'u heithrio: LBA/TAP; Lwfans Gweini; Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol; LCCh (ac eithrio'r elfen cymorth); Pensiwn Gwraig Weddw/Gŵr Gweddwr Rhyfel; Pensiynau rhyfel; Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog; a Thaliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt	Colled gyfartalog fesul aelwyd sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Caerdydd	3	230	£3,536	0.8
2.	Casnewydd	3	80		0.3
3.	Blaenau Gwent	3	30		0.1
4.	Merthyr Tudful	2	30		0.1
5.	Sir Ddinbych	2	40		0.1
6.	Castell-nedd Port Talbot	2	50		0.2
7.	Caerffili	2	70		0.2
8.	Rhondda Cynon Taf	2	90		0.3
9.	Bro Morgannwg	2	50		0.2
	Cymru	2	1,100		4.0
10.	Pen-y-bont ar Ogwr	2	50		0.2
11.	Torfaen	2	30		0.1
12.	Ynys Môn	2	20		0.1
13.	Conwy	2	30		0.1
14.	Sir y Fflint	2	50		0.2
15.	Sir Gaerfyrddin	2	50		0.2
16.	Wrecsam	2	40		0.1
17.	Abertawe	1	60		0.2
18.	Sir Fynwy	1	20		0.1
19.	Ceredigion	1	20		0.1
20.	Sir Benfro	1	30		0.1
21.	Gwynedd	1	20		0.1
22.	Powys	1	20		0.1



- Yn gyffredinol, mae'r polisi hwn yn effeithio ar deuluoedd nad ydynt yn gweithio, ac sydd naill ai: yn fwy na'r cyffredin, gan amlaf gyda thri neu fwy o blant, ac sydd felly'n derbyn taliadau CTP a thaliadau BP sy'n fwy na'r cyffredin; neu, wedi'u lleoli mewn ardaloedd â rhenti uchel ac sydd felly'n cael taliadau Budd-dal Tai mawr; neu, y ddau ffactor gyda'i gilydd.
- O gymharu â'r diwygiadau lles eraill a ddadansoddwyd, dim ond ar nifer gymharol fach o aelwydydd yng Nghymru (1,100) mae'r diwygiad hwn yn effeithio. Fodd bynnag, mae'r rhai yr effeithiwyd arnynt yn gweld gostyngiad sylweddol mewn budd-daliadau (£68 yr wythnos ar gyfartaledd - ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2013). Mae bron hanner yr aelwydydd y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt ym Mhrydain Fawr yn Llundain Fwyaf, sy'n adlewyrchu'r lefelau rhenti sylweddol uwch.
- Yng Nghymru, gydag ychydig o eithriadau, mae hawliadau CTP blynyddol ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn gweithio yn yr ardaloedd awdurdodau lleol hynny y mae'r diwygiad hwn yn effeithio arnynt fwyaf (e.e. Caerdydd, Casnewydd a Sir Ddinbych) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan (tua £5,600). At hynny, mae'r rhan fwyaf o ardaloedd lle mae maint cyfartalog aelwydydd yn fwy na chyfartaledd Cymru gyfan yn colli mwy yn sgil y diwygiad hwn na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae hyn yn unol â'r disgwyliad bod y diwygiad hwn yn fwy tebygol o gael mwy o effaith ar deuluoedd mwy o faint. At hynny, mae Caerdydd, Casnewydd a Sir Ddinbych ymhlith yr ardaloedd hynny sydd â'r dyfarniadau budd-dal tai cyfartalog mwyaf (yn y sector rhentu cymdeithasol a phreifat) yng Nghymru. Efallai fod hyn hefyd yn esbonio pam mae'r Cap ar Fudd-dal Aelwydydd yn effeithio arnynt yn eithaf llym.
- Noda'r asesiad o'r effaith gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fod bron tri chwarter yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt ym Mhrydain Fawr yn hawlio Cymhorthdal Incwm neu LCG fel eu prif fudd-dal. Yng Nghymru, Blaenau Gwent (un o'r ardaloedd y mae'r diwygiad hwn yn effeithio arni fwyaf) sydd â'r gyfradd hawlwr uchaf a'r drydedd gyfradd hawlwr uchaf o ran Cymhorthdal Incwm (Ffynhonnell: Nomis, data mis Mai 2013 data) tra bod gan rai o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt leiaf (e.e. Sir Benfro, Powys, Sir Fynwy, Gwynedd a Cheredigion) rai o'r cyfraddau hawlwr a'r cyfraddau hawlwr Cymhorthdal Incwm isaf.

Cap ar Fudd-dal Aelwydydd




© Hawffraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14
Tachwedd 2013

Budd-dâl Tai (BT): Cynyddu trothwy oedran y Gyfradd Llety a Rennir (CLIR) o 25 i 35 oed

O fis Ionawr 2012, bydd budd-dal pobl sengl 25-34 oed heb ddibynyddion sydd â hawl i'r Lwfans Tai Lleol wedi cael ei gyfyngu i rent am ystafell mewn llety a rennir. Cyn hyn, roedd gan bobl sengl yn y grŵp oedran hwn hawl i rentu llety un ystafell wely. Mae'r eithriadau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys eithriadau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, y rhai sy'n cael premiwm anabledd difrifol a'r rhai sydd â gofalwr dibreswyl yn parhau i fod yn gymwys. At hynny, bydd dau eithriad newydd yn gymwys. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chyn-garcharorion (sy'n gymwys i grŵp bach sy'n 25 oed neu drosodd ac sy'n destun Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd) ac mae'r ail yn ymwneud â phobl sydd wedi treulio tri mis neu fwy mewn hostel, neu fwy nag un hostel, sy'n arbenigo mewn adsefydlu ac ailgartrefu pobl ddigartref yn y gymuned.

Safle	Ardal awdurdod lleol	Incwm a gollwyd fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer y rhai sy'n cael LTLI yr effeithiwyd arnynt (cyfran o'r llwyth achosion LTLI un ystafell)	Colled ariannol gyfartalog fesul hawliwr sy'n colli incwm £ y flwyddyn	Incwm a gollwyd £m y flwyddyn
1.	Caerdydd	4.2	480 (26%)	2080	1.0
2.	Bro Morgannwg	4.0	160 (20%)	1980	0.3
3.	Pen-y-bont ar Ogwr	2.9	180 (22%)	1400	0.3
4.	Casnewydd	2.5	180 (25%)	1300	0.2
5.	Abertawe	2.5	240 (20%)	1610	0.4
6.	Blaenau Gwent	2.4	110 (23%)	990	0.1
7.	Merthyr Tudful	2.4	90 (27%)	990	0.1
8.	Castell-nedd Port Talbot	2.2	190 (20%)	1040	0.2
	Cymru	2.0	3,100 (18%)	1240	4.0
9.	Sir Ddinbych	1.9	150 (15%)	730	0.1
10.	Rhondda Cynon Taf	1.8	310 (23%)	880	0.3
11.	Sir Benfro	1.7	110 (9%)	1140	0.1
12.	Conwy	1.6	150 (9%)	730	0.1
13.	Sir Gaerfyrddin	1.6	180 (18%)	990	0.2
14.	Caerffili	1.1	150 (20%)	830	0.1
15.	Sir Fynwy	1.0	40 (13%)	1350	0.1
16.	Sir y Fflint	0.9	90 (18%)	990	0.1
17.	Ynys Môn	0.7	40 (12%)	730	~
18.	Ceredigion	0.6	40 (10%)	780	~
19.	Wrecsam	0.6	70 (17%)	730	0.1
20.	Gwynedd	0.5	70 (13%)	520	~
21.	Powys	0.5	70 (10%)	520	~
22.	Torfaen	~	10 (13%)	1040	~

~ Dangoswyd llai na hanner y digid olaf ac mae'n wahanol i sero



- Nid yw CLIR yn gymwys i'r rhai sy'n byw yn y sector cymdeithasol neu sy'n byw mewn mathau penodol o lety â chymorth. Mae pawb yr effeithiwyd arnynt yn cael LTLI ar gyfer eiddo un ystafell wely. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r rhai yr effeithiwyd arnynt fod yn ddynion sengl 25-34 oed; a/neu bobl ddi-waith; a/neu LCG yn seiliedig ar incwm (yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2011).
- Yng Nghymru, effeithir ar 18% o'r achos llwythi LTLI un ystafell wely (tua 3,100 o hawlwr) gyda cholled gyfartalog o £1,240 y flwyddyn. Mae'r gyfran yr effeithir arni yn amrywio ar lefel awdurdod lleol o 27% i 9%.
- Mae'n debygol y bydd ymestyn CLIR yn effeithio ar ardaloedd megis Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd, Abertawe a Blaenau Gwent yn benodol gan fod cyfran gymharol uchel o hawlwr un ystafell wely yr effeithiwyd arnynt yn yr ardaloedd hyn (hyd at 27%). Mae'r incwm blyneddol a gollwyd ar gyfartaledd fesul hawlwr yr effeithiwyd arno yn gymharol uchel hefyd yn yr ardaloedd hyn (hyd at £2,080 o gymharu â £1,240 i Gymru gyfan).
- Mae ymchwil yn awgrymu y credir y bydd y gwahaniaeth rhwng cyfradd un ystafell BT a CLIR yn debygol o wneud llety hunangynhwysol yn anfforddiadwy i bobl 25-35 oed yn y rhan fwyaf o achosion. Er enghraifft, amcangyfrifir bod yr incwm a gollwyd ar gyfartaledd yn hafal i tua 35% o lwfans personol Cymhorthdal Incwm/LCG i bobl dros 25 oed yng Nghymru. O ganlyniad, bydd effeithiau penodol yn yr ardaloedd hyn ar y galw am lety a rennir. Mae hon yn broblem o gofio'r cyflenwad cyfyngedig o lety a rennir a'r goblygiadau i ddigartrefedd (Canolfan Polisi Tai, Prifysgol Caerefrog, 2011).
- Mae'r diwygiad hwn yn cael llai o effaith ar ardaloedd megis Gwynedd, Powys a Thorfaen gyda chynnydd cymharol fach yn nifer y rhai sy'n hawlio CLIR a cholledion incwm cyfartalog is. Eto i gyd, mae angen ystyried effeithiau o'r fath mewn perthynas â lefelau incwm yr hawlwr yr effeithiwyd arnynt, yr opsiynau tai sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn ac effaith symud tŷ ar rwydweithiau cymorth cymdeithasol, er enghraifft.

Budd-dal Tai: Cynyddu trothwy oedran y Gyfradd Llety a Rennir i 35 oed

Map wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth

Mae Awdurdodau Lleol yn gymesur â'u poblogaeth

10,000 o bobl

2,500 o bobl

Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn


0.2 - 0.9

1.0 - 1.9

2.0 - 2.9

3.0 - 4.2

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru



Ffin Awdurdod Lleol

© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14


Tachwedd 2013

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Ym mis Ebrill 2013, trosglwyddodd Llywodraeth y DU gyfrifoldeb am roi cymorth i deuluoedd incwm isel gyda'u treth gyngor a thorrodd y cyllid 10 y cant. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud iawn am y diffyg o £22 miliwn yn 2013-14. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu y dylid parhau i ddarparu'r hawliad yn llawn i hawlwr cymwys yn 2014-15. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian cyfatebol i'r cyllid a ddarperir ar gyfer 2013-14 a bydd Llywodraeth Leol yn talu'r costau sy'n weddill ar gyfer y diffyg rhwng yr arian a drosglwyddir gan Lywodraeth y DU a chyfanswm incwm y dreth gyngor a fyddai fel arall yn ddyledus gan hawlwr cymwys. Comisiynwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru i ystyried opsiynau yn y tymor hwy ar gyfer 2015-16.


Safle	Ardal awdurdod lleol	Diogelwch incwm fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn	Nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt	Diogelwch incwm cyfartalog fesul hawliwr yr effeithiwyd arno £ y flwyddyn	Diogelwch incwm £m y flwyddyn
1.	Blaenau Gwent	17	10,700 (100%)	69	0.7
2.	Castell-nedd Port Talbot	16	19,300 (100%)	74	1.4
3.	Sir Ddinbych	15	11,100 (100%)	74	0.8
4.	Merthyr Tudful	14	7,800 (100%)	66	0.5
5.	Rhondda Cynon Taf	13	30,000 (100%)	66	2.0
6.	Pen-y-bont ar Ogwr	13	15,800 (100%)	71	1.1
7.	Torfaen	13	11,300 (100%)	64	0.7
8.	Conwy	12	12,300 (100%)	64	0.8
9.	Sir Gaerfyrddin	12	18,900 (100%)	68	1.3
	Cymru	11	328,500 (100%)	67	22.0
10.	Abertawe	11	27,200 (100%)	64	1.7
11.	Ynys Môn	11	7,100 (100%)	65	0.5
12.	Caerffili	11	20,400 (100%)	61	1.2
13.	Gwynedd	11	11,400 (100%)	71	0.8
14.	Caerdydd	11	35,900 (100%)	70	2.5
15.	Wrecsam	11	13,900 (100%)	65	0.9
16.	Bro Morgannwg	10	11,200 (100%)	71	0.8
17.	Sir Fynwy	10	6,800 (100%)	82	0.5
18.	Casnewydd	10	16,200 (100%)	55	0.9
19.	Powys	9	10,300 (100%)	70	0.7
20.	Sir y Fflint	9	13,100 (100%)	69	0.9
21.	Ceredigion	9	6,000 (100%)	71	0.4
22.	Sir Benfro	9	11,800 (100%)	54	0.6

Noder: mae'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt yn tybio bod y gostyngiad o 10% mewn arian gan Lywodraeth y DU yn effeithio ar bob un sy'n hawlio BDG. Os mai dim ond y rhai nad ydynt yn bensiynwyr yr effeithiwyd arnynt, byddai'r boblogaeth yr effeithiwyd arni yn llai ond byddai'r diogelwch cyfartalog yn fwy.



- Noda Adam a Browne (2012) y canlynol:
 - Mae aelwydydd nad ydynt yn gweithio 13 gwaith yn fwy tebygol o hawlio BGD nag aelwydydd sy'n gweithio.
 - Telir dros hanner holl BDG i aelwydydd lle mae oedolyn yn hawlio budd-dal sy'n ymwneud ag anabledd gan gynnwys Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini, Lwfans Anabledd Difrifol, Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm gyda phremiwm anabledd neu LCCh. Byddai'r ffigur hwn hyd yn oed yn uwch pe bai'n cynnwys y rhai sydd â phlentyn anabl yn yr aelwyd.
 - Dim ond chwarter perchenogion-ddeiliaid sydd â hawl i gael BDG, ac o'r rhai sydd â hawl mae llai na hanner yn ei hawlio. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae gan bron dri chwarter y rhai mewn tai rhentu cymdeithasol hawl i gael BDG ac o'r rhain mae mwy nag 80% yn ei hawlio.
- Mae'r canfyddiadau uchod yn helpu i esbonio'r graddau y mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn effeithio ar wahanol ardaloedd awdurdodau lleol yn 2013-14. Er enghraifft, mae Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ymhlith yr ardaloedd yng Nghymru sydd â'r cyfrannau uchaf o aelwydydd di-waith a stoc tai rhent cymdeithasol a'r cyfraddau hawlwr LBA a LCCh uchaf. Yn ôl y disgwyl, mae gan yr ardaloedd hyn gyfraddau hawlwr BDG cymharol uchel hefyd (30% neu fwy o gymharu â 25% i Gymru gyfan). Felly yr ardaloedd hynny sy'n cael y budd mwyaf o benderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud iawn am y diffyg yn yr arian ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2013-14.
- Ar y llaw arall, mae'r ardaloedd hynny sy'n cael llai o fudd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn (e.e. Powys, Sir y Flint, Ceredigion a Sir Benfro) ymhlith y rhai sydd â chyfrannau cymharol isel o aelwydydd nad ydynt yn gweithio a stoc tai rhent cymdeithasol (fel canran o gyfanswm y stoc tai) a chyfraddau hawlwr LCCh a LBA isel. Yn unol â'r canfyddiadau gan Adam a Browne, mae gan yr ardaloedd hyn gyfraddau hawlwr BDG cymharol isel hefyd (22% neu'n is).

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor



© Hawlfraint y Goron 2013
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
ML/197/13.14
Tachwedd 2013

4. Cronfa Taliadau Tai Dewisol (TTD)

Cyflwynwyd Taliadau Tai Dewisol ym mis Gorffennaf 2001 ac fe'u defnyddir gan awdurdodau lleol i roi cymorth ariannol i hawl wyr sy'n cael BT a/neu BDG, pan fydd yr awdurdod lleol o'r farn bod angen rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer costau tai. Gellir eu rhoi fel taliad untro neu o bryd i'w gilydd am gyfnod sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol. Ers mis Ebrill 2013, mae Taliadau Tai Dewisol wedi cael eu hystyngiadau i bobl sy'n cael CC ar yr amod bod ganddynt rwymedigaeth rhent a'u bod yn gymwys i gael cymorth ar gyfer costau tai.

Mae cyfraniad Llywodraeth y DU tuag at Taliadau Tai Dewisol wedi cynyddu er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi cymorth i bobl yr effeithiwyd arnynt gan rai o'r diwygiadau lles allweddol, sef: cyflwyno'r cap ar fudd-dal aelwydydd; cyflwyno meini prawf maint yn y sector cymdeithasol; a'r diwygiadau i'r LTLI.


Mae cronfa TTD Prydain Fawr rhwng 2010/11 a 2014/15 fel a ganlyn.

	£ miliwn				
	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
Craidd	£20	£20	£20	£20	£20
LTLI	-	£10	£40	£40	£40
Meini Prawf Maint	-	-	-	£35	£60
Cronfa Wrth Gefn	-	-	-	£20	-
Cap ar Fudd-daliadau	-	-	-	£65	£45
Cyfanswm	£20	£30	£60	£180	£165

Y mae cyfraniad TTD Llywodraeth y DU i awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cynyddu o £2.8 miliwn yn 2012/13 i bron £8 miliwn yn 2014/15. Yn ogystal â'r arian yma, mae Llywodraeth Cymru yn darparu hyd at £1.3 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru i'w ddefnyddio hyd at a chan gynnwys 31 Mawrth 2014. Mae hwn yn gymorth untro sydd â'r nod o ychwanegu at gyllid y Gronfa Taliadau Tai Dewisol, sydd, fel y dangosir isod, o dan bwysau mawr oherwydd y galw cynyddol a achosir gan y diwygiadau lles.

Y galw am arian TTD yng Nghymru

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi casglu gwybodaeth am nifer y ceisiadau am TTD a gyflwynwyd i awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng mis Ebrill - mis Medi 2013, a hefyd yn ystod yr un cyfnod flwyddyn yn gynt. Mae 15 o'r 22 awdurdod lleol wedi rhoi set lawn o ddata. Fel y dengys y tabl a'r siart drosodd, mae pob un o'r awdurdodau lleol hyn wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau. Mae'r cynnydd yn amrywio ymhlith yr awdurdodau lleol o tua 40% i 600%. Y cynnydd yng Nghymru gyfan yw tua 260%.



Ardal awdurdod lleol	Ceisiadau am TTD a gyflwynwyd mis Ebrill - mis Medi 2012	Ceisiadau am TTD a gyflwynwyd mis Ebrill - mis Medi 2013	Newid canrannol
Caerffili	146	1,017	597
Blaenau Gwent	97	616	535
Abertawe	277	1,591	474
Merthyr Tudful	60	304	407
Bro Morgannwg	164	743	353
Wreccsam	175	756	332
Conwy	167	622	272
Sir Gaerfyrddin	257	891	247
Caerdydd	671	2,139	219
Sir Benfro	109	344	216
Pen-y-bont ar Ogwr	139	418	201
Sir Ddinbych	180	534	197
Gwynedd	413	1,131	174
Ceredigion	216	439	103
Sir y Fflint	256	351	37
CYMRU	3,327	11,896	258
Rhondda Cynon Taf	Dd/G	1,328	Dd/G
Torfaen	Dd/G	1,148	Dd/G
Castell-nedd Port Talbot	Dd/G	920	Dd/G
Casnewydd	Dd/G	789	Dd/G
Powys	Dd/G	693	Dd/G
Sir Fynwy	Dd/G	665	Dd/G
Ynys Môn	Dd/G	308	Dd/G

Ffynhonnell: CLILC Noder: cyfrifir newid canrannol Cymru drwy ddefnyddio'r awdurdodau lleol hynny a gyflwynodd ffigurau ar gyfer mis Ebrill-mis Medi 2012 a mis Ebrill-mis Medi 2013 yn unig.

Er iddynt wneud ymdrech i ymgysylltu â thrigolion, mae awdurdodau lleol o'r farn bod trigolion o hyd nad ydynt yn ceisio cymorth er bod ganddynt hawl i'w gael o bosibl. Maent yn rhagweld y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach oherwydd effeithiau tymhorol (e.e. y Nadolig) ac mae rhai yn ei chael hi'n anodd i wneud iawn am y diffyg yn y budd-dal tai wrth i amser fynd heibio.

5. Cosbau Budd-daliadau

Mae'r ffordd yr effeithir ar LCG a LCCh os nad yw hawlwyrr yn bodloni'r amodau i gael y budd-daliadau hyn wedi newid yn ddiweddar.

Lwfans Ceisio Gwaith (LCG)

O ran y LCG, daeth trefniadau cosbau cyfnod penodol i rym o fis Hydref 2012. O dan y drefn newydd:

- Bydd cosbau lefel uwch (er enghraifft, am adael swydd yn wirfoddol) yn arwain at hawlwyrr yn colli eu holl LCG am gyfnod penodol o 13 wythnos am y methiant cyntaf, 26 wythnos am yr ail fethiant a 156 wythnos am y trydydd methiant a phob un arall ar ôl hynny (o fewn cyfnod o 52 wythnos i'r methiant diwethaf).
- Bydd modd rhoi cosbau canolraddol - o bedair wythnos am fethiant cyntaf, gan gynyddu i 13 wythnos am ail fethiant neu bob methiant ar ôl hynny (o fewn cyfnod o 52 wythnos ar ôl eu methiant diwethaf) ar ôl cyfnod o waharddiad budd-dal am beidio â chwilio am gyflogaeth neu beidio â bod ar gael i weithio.
- Bydd cosbau lefel is (er enghraifft, am fethu â dod i gyfweiliad â chynghorydd) - yn arwain at hawlwyrr yn colli eu holl LCG am gyfnod penodol o 4 wythnos am y methiant cyntaf, gyda 13 wythnos am fethiannau ar ôl hynny (o fewn cyfnod o 52 wythnos i'r methiant diwethaf).

Fel y dengys tabl 5.1, yng Nghymru, o dan y drefn cosbau LCG newydd, gwnaed cyfanswm o 60,990 o benderfyniadau cosb hyd at 30 Mehefin 2013, yr oedd 26,510 (43 y cant) ohonynt yn rhai anffafriol¹⁴ (h.y. rhoddwyd cosb). Mae'r gyfradd hon yr un fath â'r gyfradd ar gyfer Prydain Fawr (43 y cant). Roedd 58 y cant o benderfyniadau anffafriol o dan y drefn cosbau newydd yn y grŵp 'Isel', 33 y cant yn y grŵp 'Canolraddol' a 10 y cant yn y grŵp 'Uchel'. Ar bob lefel o gosb, roedd 80 y cant o unigolion a gafodd benderfyniad anffafriol wedi cael un am y tro cyntaf o dan y drefn cosbau newydd.

Ymhlith ardaloedd awdurdodau lleol, roedd penderfyniadau anffafriol yn cyfrif am y gyfran fwyaf (tua 50 y cant) o gyfanswm y penderfyniadau ym Mlaenau Gwent a Phowys tra bod y cyfrannau isaf yng Nghasnewydd a Sir y Fflint (37-38 y cant). O ran lefelau penderfyniadau cosb ymhlith tri dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru (ni chyhoeddir data ar lefel awdurdod lleol), De-orllewin Cymru oedd â'r gyfran uchaf o benderfyniadau anffafriol yn y grŵp 'Canolraddol' neu 'Uchel' sef 51 y cant o gymharu â 41 y cant yn Ne-ddwyrain Cymru a 29 y cant yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru (tabl 5.2 isod).

¹⁴ Mae penderfyniadau yn anffafriol/nad ydynt yn anffafriol pan roddir y gosb/pan na roddir y gosb Caiff penderfyniadau eu canslo pan nad yw'r hawliwr yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith mwyach ar adeg cyfeirio. Mae penderfyniadau wedi'u gohirio pan fydd yr hawliwr yn rhoi'r gorau i hawlio rhwng adeg cyfeirio ac adeg y penderfyniad.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh)

O fis Rhagfyr 2012, cyflwynwyd trefn cosbau ddiwygiedig ar gyfer hawlwyrr LCCh sydd yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith. O dan y system flaenorol, cafodd hawlwyrr yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith a fethodd â dod i gyfweiliad sy'n canolbwyntio ar waith neu gymryd rhan ynddo, neu a fethodd ag ymgymryd â gweithgaredd cysylltiedig â gwaith y cytunwyd arno gyda'u cynghorydd, gosb benagored. Swm y gosb oedd 50 y cant o'r elfen gweithgaredd cysylltiedig â gwaith, gan gynyddu i 100 y cant o'r elfen ar ôl pedair wythnos. Roedd y gosb yn dod i ben pan oeddent yn cydymffurfio unwaith eto. O dan y rheolau newydd, mae hawlwyrr LCCh yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith sy'n methu â chydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth gael budd-dal yn cael cosb benagored, wedyn gosb am gyfnod penodol pan fyddant yn cydymffurfio unwaith eto. Y gosb am gyfnod penodol fydd wythnos am y methiant cyntaf, dwy wythnos am yr ail fethiant a phedair wythnos am drydydd methiant a phob methiant ar ôl hynny o fewn cyfnod o 52 wythnos.

Bydd hawlwyrr sy'n cael eu cosbi yn colli eu holl lwfans personol ond nid effeithir ar yr elfen gweithgarwch yn seiliedig ar waith (ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2013g).

O dan y drefn cosbau LCCh newydd, gwnaed 3,190 o benderfyniadau cosb hyd at 30 Mehefin 2013 yng Nghymru, yr oedd 950 (30 y cant) ohonynt yn benderfyniadau anffafriol o gymharu â 25 y cant i Brydain Fawr (tabl 5.3 isod). O blith y saith grŵp Canolfan Byd Gwaith ym Mhrydain Fawr, dyna'r ganran uchaf o benderfyniadau anffafriol ar y cyd â'r Alban. Cafwyd y gyfran uchaf o benderfyniadau nad oeddent yn anffafriol yng Nghymru hefyd (31 y cant, Prydain Fawr 25 y cant) - esbonnir hyn gan y gyfradd dipyn yn is o benderfyniadau wedi'u canslo (39 y cant yng Nghymru o gymharu â 50 y cant ym Mhrydain Fawr). Yng Nghymru, cafodd 620 o *unigolion* benderfyniad cosb anffafriol o dan y drefn newydd, gyda 74 y cant yn cael eu cosb gyntaf. Ymhlith y saith grŵp Canolfan Byd Gwaith, dyma'r ganran isaf. Cafodd 11 y cant o unigolion yng Nghymru dri neu fwy o benderfyniadau cosb anffafriol, sef y ganran uchaf ymhlith y rhanbarthau canolfan gwaith a thipyn yn uwch na chyfartaledd Prydain Fawr, sef 5 y cant.

Ymhlith tri dosbarth y Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru (ni chyhoeddir data ar lefel awdurdod lleol), penderfyniadau anffafriol oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf (36 y cant) o gyfanswm y penderfyniadau ynglŷn â LCCh yn Ne-ddwyrain Cymru o gymharu â 27 y cant yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru a 24 y cant yn Ne-orllewin Cymru (tabl 5.3 isod).

Tabl 5.1: Penderfyniadau Cosb LCG yn ôl ardal awdurdod lleol

Safle	Ardal	Penderfyniadau Cosb LCG ¹⁵					
		Penderfyniad au nad ydynt yn Anffafriol	Penderfyn iadau Anffafriol	Penderfyni adau a Ohiriwyd	Penderfyni adau a Ganslwyd	Cyfanswm y Penderfyniadau (% o gyfanswm Cymru)	Penderfyniadau Anffafriol fel % o Gyfanswm y Penderfyniadau
1.	Blaenau Gwent	670	1,420	80	640	2,800 (5%)	51
2.	Powys	450	750	50	270	1,510 (2%)	50
3.	Sir Fynwy	340	560	50	240	1,180 (2%)	47
4.	Rhondda Cynon Taf	1,770	3,050	290	1,350	6,450 (11%)	47
5.	Merthyr Tudful	580	980	60	460	2,080 (3%)	47
6.	Caerffili	1,390	2,090	200	860	4,550 (7%)	46
7.	Bro Morgannwg	810	1,210	130	550	2,690 (4%)	45
8.	Abertawe	1,700	2,650	230	1,370	5,930 (10%)	45
9.	Gwynedd	480	630	70	280	1,430 (2%)	44
	Cymru	18,240	26,510	2,560	13,670	60,990 (100%)	43
10.	Torfaen	440	770	60	520	1,780 (3%)	43
11.	Sir Gaerfyrddin	730	1,000	70	530	2,330 (4%)	43
12.	Pen-y-bont ar Ogwr	900	1,290	150	700	3,030 (5%)	43
13.	Ynys Môn	240	290	20	140	690 (1%)	42
14.	Ceredigion	280	290	40	80	690 (1%)	42
15.	Conwy	410	540	60	280	1,300 (2%)	42
16.	Caerdydd	2,490	3,390	340	2,020	8,230 (13%)	41
17.	Wrecsam	840	930	100	410	2,270 (4%)	41
18.	Castell-nedd Port Talbot	860	1,060	130	550	2,600 (4%)	41
19.	Sir Ddinbych	520	640	80	350	1,580 (3%)	41
20.	Sir Benfro	600	750	90	450	1,890 (3%)	40
21.	Casnewydd	1,050	1,430	180	1,120	3,780 (6%)	38
22.	Sir y Fflint	730	810	110	560	2,200 (4%)	37

Ffynhonnell: DWP (2013g) Mae'r data yn ymwneud â 22 Hydref 2012 hyd at 30 Mehefin 2013.

¹⁵ Mae penderfyniadau yn anffafriol/nad ydynt yn anffafriol pan roddir y gosb/pan na roddir y gosb. Caiff penderfyniadau eu canslo pan nad yw'r hawliwr yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith mwyach ar adeg cyfeirio. Mae penderfyniadau wedi'u gohirio pan fydd yr hawliwr yn rhoi'r gorau i hawlio rhwng adeg cyfeirio ac adeg y penderfyniad.

Tabl 5.2: Lefelau Penderfyniadau Anffafriol LCG yn ôl dosbarth Canolfan Byd Gwaith

Ardal	Lefel Penderfyniadau Cosb Anffafriol LCG(% o'r cyfanswm)			Cyfanswm y Penderfyniadau Anffafriol
	Isel	Canolradd	Uchel	
Cymru	15,280 (58%)	8,650 (33%)	2,580 (10%)	26,510
Gogledd a Chanolbarth Cymru	3,290 (72%)	760 (17%)	530 (12%)	4,580
De-ddwyrain Cymru	7,030 (59%)	3,990 (34%)	810 (7%)	11,830
De-orllewin Cymru	4,960 (49%)	3,900 (39%)	1,240 (12%)	10,100

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013g) Mae'r data yn ymwneud â 22 Hydref 2012 hyd at 30 Mehefin 2013.

Tabl 5.3: Penderfyniadau Cosb LCCh yn ôl Rhanbarth Canolfan Byd Gwaith

Ardal	Penderfyniadau Cosb LCCh				
	Penderfyniadau nad ydynt yn Anffafriol	Penderfyniadau Anffafriol	Penderfyniadau a Ganslwyd	Cyfanswm y Penderfyniadau (% o gyfanswm Cymru)	Penderfyniadau Anffafriol fel % o Gyfanswm y Penderfyniadau
Cymru	980	950	1,260	3,190 (100%)	30
Gogledd a Chanolbarth Cymru	150	140	220	510 (16%)	27
De-ddwyrain Cymru	390	490	490	1,360 (43%)	36
De-orllewin Cymru	440	320	560	1,320 (41%)	24

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013g) Mae'r data yn ymwneud â 3 Hydref 2012 hyd at 30 Mehefin 2013.

6. Casgliadau a'r camau nesaf

Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Aseswyd 14 o ddiwygiadau lles o ran nifer yr hawlwyd yr effeithiwyd arnynt a'r effeithiau posibl ar incwm.

Y diwygiadau sy'n effeithio ar y nifer fwyaf o unigolion/aelwydydd yng Nghymru yw: y newid i fynegeio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi; y cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant; a rhewi cyfraddau Budd-dal Plant. Disgwylir i'r diwygiadau hyn arwain at golli symiau cymharol fach o incwm i'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Er bod diwygiadau eraill megis y Cap ar Fudd-dal Aelwydydd yn effeithio ar lai o unigolion/aelwydydd, mae'r incwm a gollwyd ar gyfartaledd dipyn yn fwy.

At ei gilydd, amcangyfrifir y bydd y newidiadau polisi a aseswyd yn lleihau hawliadau blynyddol o ran budd-daliadau a chredydau treth yng Nghymru tua £900 miliwn yn 2015/16 (2 y cant o incwm aelwydydd crynswth i'w wario).

Fel y dengys y siart uchod, gellir priodoli tua hanner y cyfanswm a gollwyd yng Nghymru i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau treth eu huwchraddio. Mae colledion ariannol mawr eraill yn deillio o lwyth achosion is o dan y Taliad Annibyniaeth Personol o'i gymharu â'r Lwfans Byw i'r Anabl a'r terfyn amser o flwyddyn ar y LCCh cyfrannol i'r rhai yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Ar y llaw arall, mae rhai o'r diwygiadau i'r Budd-dal Tai a'r Cap ar Fudd-dal Aelwydydd yn arwain at golledion llawer llai o ran cyfanswm yr incwm a gollwyd yng Nghymru.

Er y bydd y colledion yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd colled flynyddol gyfartalog o tua £500 fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru yn 2015/16.

I'r rhai y mae'r diwygiadau lles yn effeithio ar eu hincwm, efallai y bydd newidiadau canlyniadol mewn gwariant a sgil-effeithiau ehangach i'r economi.

Mae'r canfyddiadau yn dangos yn glir bod effaith diwygiadau lles yn amrywio rhwng ardaloedd awdurdodau lleol o ran nifer a chyfran yr unigolion / aelwydydd yr effeithiwyd arnynt a'r colledion ariannol cyfartalog.

O blith holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, amcangyfrifir mai yng Nghastell-nedd Port Talbot, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful y bydd y diwygiadau lles a ddadansoddwyd yn cael yr effaith fwyaf. Amcangyfrifir y bydd y golled flynyddol gyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn tua £600 yn 2015/16 o'i chymharu â £500 i Gymru gyfan.

Mae bron chwarter y boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, sef y gyfran uchaf yng Nghymru. Effeithir yn benodol ar yr ardaloedd hyn o ganlyniad i'r newidiadau i'r ffordd y caiff budd-daliadau a chredydau

treth eu huwchraddio, y terfyn amser ar y LCCh yn Seiliedig ar Gyfraniadau, cyflwyno'r Taliad Annibyniaeth Personol a'r meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol. Mae effeithiau o'r fath yn adlewyrchu'r cyfraddau hawlwr budd-daliadau oedran gweithio cyffredinol cymharol uchel, yn enwedig o ran budd-daliadau anabledd a salwch (h.y. LBA a LCCh), a'r gyfran uchel o stoc tai rhent yn y sector rhentu cymdeithasol.

Ar y pegwn arall, mae'r diwygiadau lles a ddadansoddwyd yn cael llawer llai o effaith, ar gyfartaledd, ym Mhowys, Gwynedd a Cheredigion. Mae hyn yn adlewyrchu eu cyfraddau hawlwr budd-daliadau cymharol isel gydag ychydig dros un o bob deg o'r boblogaeth 16-64 oed yn yr ardaloedd hyn yn hawlio budd-daliadau oedran gweithio, sef y gyfran isaf yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd y golled flynyddol gyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio yn yr ardaloedd hyn tua £400 yn 2015/16, sef tua dwy ran o dair o'r golled a welwyd yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf.

Mae'r canfyddiadau uchod yn seiliedig ar golledion cyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio, a all weithiau gelu gwahaniaethau mewn effeithiau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol mawr.

O ran colledion incwm absoliwt, amcangyfrifir mai yng Nghaerdydd (£103 miliwn), Rhondda Cynon Taf (£81 miliwn) ac Abertawe (£75 miliwn) y bydd y colledion mwyaf o ran cyfanswm incwm (y mae pob un yn hafal i 8-11% o gyfanswm Cymru) yn unol â'u cyfrannau o'r boblogaeth o oedran gweithio. Tra bydd Merthyr Tudful (£22 miliwn), Ynys Môn (£19 miliwn) a Cheredigion (£18 miliwn), sydd ymhlith ardaloedd awdurdodau lleol lleiaf Cymru yn seiliedig ar gyfrannau o'r boblogaeth, yn gweld y colledion isaf o ran cyfanswm incwm (y mae pob un yn hafal i 2% o gyfanswm Cymru).

Mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar fodelau sefydlog ac felly nad ydynt yn ystyried unrhyw effeithiau ymddygiadol megis hawlwr yn cael gwaith neu'n symud i eiddo rhatach, neu landlordiaid yn gostwng rhenti. Nid yw'r gwaith ymchwil yn ystyried ychwaith unrhyw incwm ychwanegol a gollwyd oherwydd cosbau budd-daliadau.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad diweddaraf hwn, mae Llywodraeth y DU yn gorfodi diwygiadau lles ar Gymru sydd â goblygiadau sylweddol i unigolion a chymunedau. Bydd Llywodraeth Cymru, hyd y gellir, yn parhau i ddefnyddio canfyddiadau ei gwaith ymchwil ar effaith y diwygiadau er mwyn helpu i lywio polisïau a helpu pobl i reoli'r newid.

Y camau nesaf

Ar adeg ysgrifennu, disgwylir i'r rhan nesaf o waith ymchwil Cam 3 gynnwys:

- Meintioli effaith ddosbarthiadol y diwygiadau lles yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU hyd at a chan gynnwys y rhai yng Nghyllideb 2014. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o gyfanswm yr incwm a gollwyd yng Nghymru a'r incwm a gollwyd ar gyfartaledd ar draws y dosbarthiad incwm ac yn ôl math o deulu. Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig: Gwanwyn 2014. Ystyrir gofynion gwaith ymchwil drwy'r amser ac felly gallant newid.

Cyfeiriadau

Adam, S, a Browne, J (2012) Reforming Council Tax Benefit: Options for Wales. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid www.ifs.org.uk/publications/6204

Adam, S a Phillips, D (2013) An ex-ante analysis of the effects of the UK Government's welfare reforms on labour supply in Wales. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid www.ifs.org.uk/publications/6586

Beatty, C. a Fothergill, S. (2013) Hitting the poorest places hardest. The local and regional impact of welfare reform

Y Ganolfan Polisi Tai, Prifysgol Caerefrog (2011) Unfair Shares: A report on the impact of extending the Shared Accommodation Rate of Housing Benefit

Cartrefi Cymunedol Cymru (2013) Datganiad newyddion: 'Bedroom tax' will mean 1,000 fewer homes in Wales (20 Tachwedd 2013)

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2010a) Impacts of Housing Benefit Proposals: Changes to the Local Housing Allowance to be introduced in 2011-12

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2010b) Housing Benefit: Changes to the Local Housing Allowance Arrangements – Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011a) Time limit contributory Employment and Support Allowance to one year for those in the work-related activity group – Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011b) Time limiting contributory Employment and Support Allowance to one year for those in the work-related activity group – Equality Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011c) Housing Benefit: Up-rating Local Housing Allowance by the Consumer Price Index – Determination of Appropriate Maximum Housing Benefit in the Private Rented Sector – Equality Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011d) Housing Benefit equality impact assessment - Increasing the Shared Accommodation Rate age threshold to 35

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012a) Benefit Cap – Equality Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012b) Benefit Cap (Housing Benefit) Regulations 2012: Impact Assessment for the benefit cap

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012c) Disability Living Allowance Reform– Equality Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012d) Disability Living Allowance Reform– Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012e) Housing Benefit: Size Criteria for People Renting in the Social Rented Sector – Equality Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012f) Universal Credit – Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012g) Housing Benefit: Under occupation of social housing – Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012h) Housing Benefit – Up-rating Local Housing Allowance Rates by CPI from April 2013 – Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012i) Personal Independence Payment: Reassessment and Impacts

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012j) GB households and individuals in receipt of a letter notifying them they may be affected by the benefit cap in April 2013. Ad hoc statistical analysis

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013a) Welfare Benefits Up-rating Bill – Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013b) Social Security Benefits Up-rating Order 2013 – Impact Assessment

Yr Adran Gwaith a Phensiynau(2013c) Housing Benefit and Council Tax Benefit Caseload Statistics: November 2008 to February 2013

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013d) Ad hoc statistics on Households identified as potentially impacted by the benefit cap

Yr Adran Gwaith a Phensiynau(2013e) Number of Housing Benefit claimants and average weekly spare room subsidy amount withdrawal

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013f) Benefit expenditure by country, region and local authority from 2000/01 to 2011/12

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013g) Jobseeker's Allowance and Employment and Support Allowance
Sanctions – decisions made to June 2013, GB

Yr Adran Gwaith a Phensiynau(2013h) Equality Analysis for Housing Benefit: Up-rating Local Housing Allowance by 1 per cent and the Targeted Affordability Funding. Limiting the annual up-rating of Local Housing Allowance rates to 1 per cent in 2014-15 and 2015-16

CThEM (2012a) Child Benefit: Income Tax Charge for Those on Higher Incomes.

CThEM (2012b) Child Benefit, Child Tax Credit and Working Tax Credit Take-up Rates 2010-11

CThEM (2012c) Child and Working Tax Credits Statistics. Finalised Annual Awards 2011-12. Geographical Analysis

CThEM (2012d) Child Benefit Statistics. Geographical Analysis. Awst 2011

CThEM (2013a) Child Benefit Statistics. Geographical Analysis. Awst 2012

CThEM (2013b) A disaggregation of HMRC tax receipts between England, Wales, Scotland and Northern Ireland

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2013) Economic and Fiscal Outlook, Mawrth 2013

Llywodraeth Cymru (2011) Rhaglen Lywodraethu

Llywodraeth Cymru (2012a) Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru - Dadansoddiad Cam 1

Llywodraeth Cymru (2012b) Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-16

Llywodraeth Cymru (2013a) Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru - Dadansoddiad Cam 2

Llywodraeth Cymru (2013b) Rhaglen Lywodraethu – Adroddiad Blynyddol

Llywodraeth Cymru (2013c) Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

Atodiad 1: Crynodebau o ardaloedd awdurdodau lleol

Ar ddechrau'r Atodiad hwn rhoddir cyfraddau hawlwy budd-daliadau a chredydau treth, sydd wedi cael eu defnyddio, ymhlith data eraill, i ddeall gwahanol effeithiau'r diwygiadau lles yn lleol yng Nghymru. Mae gweddill yr Atodiad wedi'i strwythuro yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae hyn yn debygol o fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr sydd am edrych ar yr effeithiau ar gyfer ardal benodol. Caiff y golled ariannol gyfartalog fesul oedolyn o oedran gweithio (£ y flwyddyn) ar gyfer pob diwygiad ei dangos a'i chymharu â'r golled gyfartalog gyfatebol i Gymru gyfan. Cyflwynir y golled ariannol absoliwt (£m yn 2015-16) ar gyfer pob awdurdod lleol hefyd.

Cyfraddau hawlwy budd-daliadau yn ôl ardal awdurdod lleol

Safle	Ardal	Cyfanswm		Budd-daliadau allan o waith	
		Nifer	Cyfradd (% o aelwydydd o oedran gweithio)	Nifer	Cyfradd (% o aelwydydd o oedran gweithio)
1.	Blaenau Gwent	11,100	25	9,350	21
2.	Merthyr Tudful	9,080	24	7,570	20
3.	Castell-nedd Port Talbot	20,040	23	15,870	18
4.	Rhondda Cynon Taf	33,010	22	27,380	18
5.	Caerffili	23,850	21	19,160	17
6.	Torfaen	11,450	20	9,260	16
7.	Pen-y-bont ar Ogwr	17,440	20	14,020	16
8.	Casnewydd	17,570	19	14,450	16
9.	Sir Ddinbych	10,570	19	8,230	15
10.	Abertawe	26,910	18	21,740	14
	Cymru	335,530	17	269,470	14
11.	Sir Gaerfyrddin	19,280	17	15,220	14
12.	Conwy	11,330	17	8,920	13
13.	Ynys Môn	6,960	17	5,590	13
14.	Wrecsam	13,680	16	10,610	12
15.	Sir Benfro	11,430	16	8,900	12
16.	Caerdydd	36,530	15	30,420	13
17.	Bro Morgannwg	11,020	14	8,710	11
18.	Sir y Fflint	13,020	14	9,950	10
19.	Gwynedd	9,310	12	7,410	10
20.	Powys	9,750	12	7,400	9
21.	Sir Fynwy	6,660	12	5,070	9
22.	Ceredigion	5,560	11	4,270	9

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Nomis (data mis Mai 2013). Mae'n cynnwys y budd-daliadau oedran gweithio canlynol: Budd-dal Profedigaeth; Lwfans Gofalwr; LBA; LCCh; Budd-dal Analluogrwydd / Lwfans Anabledd Difrifol; Cymhorthdal Incwm (gan gynnwys Credyd Pensiwn i ddynion 60 i 64 oed); LCG; a Budd-dal Gwraig Weddw. Mae budd-daliadau allan o waith yn cynnwys: Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Budd-dal Analluogrwydd, rhieni unigol ac eraill sy'n cael budd-daliadau yn seiliedig ar incwm. Dim ond unwaith y caiff pob unigolyn ei ddosbarthu a chaiff ei gyflwyno yn ôl eu prif resymau dros hawlio budd-dal.


Cyfraddau hawlwyr Credydau Treth yn ôl ardal awdurdod lleol

Safle	Ardal	Cyfanswm	
		Nifer y teuluoedd allan o waith ac sy'n gweithio sy'n cael Credydau Treth	Cyfradd (% o aelwydydd o oedran gweithio)
1.	Merthyr Tudful	7,000	38
2.	Blaenau Gwent	8,100	37
3.	Caerffili	19,600	35
4.	Torfaen	9,900	35
5.	Conwy	11,000	34
6.	Sir Benfro	12,100	34
7.	Casnewydd	15,500	34
8.	Rhondda Cynon Taf	25,400	33
9.	Ynys Môn	6,600	33
10.	Sir Gaerfyrddin	18,100	33
11.	Castell-nedd Port Talbot	14,900	32
12.	Wrecsam	13,800	32
13.	Pen-y-bont ar Ogwr	14,200	32
14.	Sir Ddinbych	9,400	32
15.	Sir y Fflint	14,500	32
	Cymru	300,000	31
16.	Gwynedd	10,900	30
17.	Powys	12,100	30
18.	Abertawe	22,600	29
19.	Bro Morgannwg	11,000	28
20.	Ceredigion	6,500	27
21.	Sir Fynwy	6,700	26
22.	Caerdydd	30,100	26

Ffynhonnell: CThEM (2012c) Child and Working Tax Credits Statistics. Finalised annual awards 2011-12. Geographical analysis.


Castell-nedd Port Talbot

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Castell-nedd Port Talbot
Mynegeio yn ôl y MPD	166	135	14.7
Cap o 1%	101	88	8.9
LBA	117	79	10.4
LCCh â therfyn amser	111	68	9.9
BP - rhewi cyfraddau	25	24	2.2
BP - tapro	14	21	1.2
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	17	19	1.5
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	14	12	1.2
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	11	12	0.9
BT: rheolau tanfeddiannu	16	12	1.4
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	9	8	0.8
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.2
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.2
Cyfanswm	606	480	53.7




Blaenau Gwent

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Blaenau Gwent	Cymru	Blaenau Gwent
Mynegeio yn ôl y MPD	168	135	7.5
Cap o 1%	107	88	4.8
LBA	101	79	4.5
LCCh â therfyn amser	101	68	4.5
BP - rhewi cyfraddau	26	24	1.1
BP - tapro	4	21	0.2
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	24	19	1.1
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	13	12	0.6
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	6	12	0.3
BT: rheolau tanfeddiannu	20	12	0.9
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	9	8	0.4
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	3	2	0.1
Cyfanswm	585	480	26.0




Merthyr Tudful

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Merthyr Tudful	Cymru	Merthyr Tudful
Mynegeio yn ôl y MPD	166	135	6.3
Cap o 1%	104	88	3.9
LBA	111	79	4.2
LCCh â therfyn amser	87	68	3.3
BP - rhewi cyfraddau	26	24	1.0
BP - tapro	18	21	0.7
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	17	19	0.6
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	12	12	0.4
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	8	12	0.3
BT: rheolau tanfeddiannu	19	12	0.7
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	7	8	0.3
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.1
Cyfanswm	580	480	21.9




Pen-y-bont ar Ogwr

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Pen-y-bont ar Ogwr	Cymru	Pen-y-bont ar Ogwr
Mynegeo yn ôl y MPD	147	135	13.0
Cap o 1%	94	88	8.3
LBA	93	79	8.2
LCCh â therfyn amser	100	68	8.8
BP - rhewi cyfraddau	25	24	2.2
BP - tapro	18	21	1.6
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	17	19	1.5
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	14	12	1.2
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	15	12	1.3
BT: rheolau tanfeddiannu	11	12	0.9
BT: Mynegeo yn ôl y MPD	9	8	0.8
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	3	2	0.3
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.2
Cyfanswm	548	480	48.4




Rhondda Cynon Taf

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Rhondda Cynon Taf	Cymru	Rhondda Cynon Taf
Mynegeio yn ôl y MPD	155	135	23.2
Cap o 1%	99	88	14.8
LBA	95	79	14.2
LCCh â therfyn amser	87	68	12.9
BP - rhewi cyfraddau	26	24	3.9
BP - tapro	14	21	2.0
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	16	19	2.4
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	13	12	2.0
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	12	12	1.9
BT: rheolau tanfeddiannu	13	12	1.9
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	9	8	1.4
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.3
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.3
Cyfanswm	543	480	81.2



Caerffili


Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Caerffili	Cymru	Caerffili
Mynegeio yn ôl y MPD	153	135	17.4
Cap o 1%	96	88	10.9
LBA	99	79	11.2
LCCh â therfyn amser	87	68	9.9
BP - rhewi cyfraddau	26	24	3.0
BP - tapro	11	21	1.2
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	19	19	2.2
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	14	12	1.6
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	9	12	1.1
BT: rheolau tanfeddiannu	16	12	1.9
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	6	8	0.7
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	1	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.2
Cyfanswm	541	480	61.3



Torfaen


Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Torfaen	Cymru	
Mynegeio yn ôl y MPD	153	135	8.8
Cap o 1%	97	88	5.5
LBA	92	79	5.3
LCCh â therfyn amser	86	68	4.9
BP - rhewi cyfraddau	26	24	1.5
BP - tapro	17	21	1.0
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	15	19	0.9
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	15	12	0.9
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	9	12	0.5
BT: rheolau tanfeddiannu	21	12	1.2
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	5	8	0.3
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	~	2	~
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.1
Cyfanswm	539	480	30.8

~ Dangoswyd llai na hanner y digid olaf ac mae'n wahanol i sero




Sir Ddinbych

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Sir Ddinbych	Cymru	Sir Ddinbych
Mynegeio yn ôl y MPD	147	135	8.3
Cap o 1%	95	88	5.4
LBA	91	79	5.1
LCCh â therfyn amser	69	68	3.9
BP - rhewi cyfraddau	26	24	1.5
BP - tapro	21	21	1.2
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	19	19	1.1
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	12	12	0.7
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	18	12	1.0
BT: rheolau tanfeddiannu	7	12	0.4
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	13	8	0.7
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.1
Cyfanswm	522	480	29.6




Casnewydd

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Casnewydd	Cymru	Casnewydd
Mynegeio yn ôl y MPD	140	135	12.9
Cap o 1%	95	88	8.7
LBA	73	79	6.7
LCCh â therfyn amser	65	68	6.0
BP - rhewi cyfraddau	26	24	2.4
BP - tapro	24	21	2.2
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	31	19	2.8
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	13	12	1.2
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	11	12	1.0
BT: rheolau tanfeddiannu	17	12	1.6
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	8	8	0.7
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	3	2	0.2
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	3	2	0.3
Cyfanswm	508	480	46.8




Abertawe

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Abertawe	Cymru	Abertawe
Mynegeio yn ôl y MPD	136	135	20.9
Cap o 1%	87	88	13.3
LBA	85	79	13.1
LCCh â therfyn amser	65	68	10.1
BP - rhewi cyfraddau	23	24	3.5
BP - tapro	20	21	3.0
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	23	19	3.5
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	12	12	1.8
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	12	12	1.8
BT: rheolau tanfeddiannu	13	12	1.9
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	7	8	1.1
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	3	2	0.4
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	1	2	0.2
Cyfanswm	486	480	74.7




Sir Gaerfyrddin

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Sir Gaerfyrddin	Cymru	Sir Gaerfyrddin
Mynegeio yn ôl y MPD	138	135	15.4
Cap o 1%	85	88	9.5
LBA	87	79	9.7
LCCh â therfyn amser	72	68	8.0
BP - rhewi cyfraddau	24	24	2.7
BP - tapro	14	21	1.6
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	20	19	2.2
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	13	12	1.4
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	10	12	1.2
BT: rheolau tanfeddiannu	12	12	1.3
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	8	8	0.9
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.2
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.2
Cyfanswm	485	480	54.2




Conwy

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Conwy	Cymru	
Mynegeio yn ôl y MPD	138	135	9.3
Cap o 1%	89	88	6.0
LBA	78	79	5.3
LCCh â therfyn amser	58	68	3.9
BP - rhewi cyfraddau	24	24	1.6
BP - tapro	17	21	1.2
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	21	19	1.4
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	11	12	0.8
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	21	12	1.4
BT: rheolau tanfeddiannu	7	12	0.4
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	16	8	1.1
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.1
Cyfanswm	484	480	32.6



Sir Benfro


Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Sir Benfro	Cymru	Sir Benfro
Mynegeio yn ôl y MPD	125	135	9.2
Cap o 1%	82	88	6.0
LBA	73	79	5.4
LCCh â therfyn amser	65	68	4.7
BP - rhewi cyfraddau	24	24	1.8
BP - tapro	25	21	1.8
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	23	19	1.7
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	12	12	0.9
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLL	19	12	1.4
BT: rheolau tanfeddiannu	9	12	0.7
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	11	8	0.8
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	2	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	1	2	0.1
Cyfanswm	470	480	34.4



Ynys Môn


Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Ynys Môn	Cymru	Ynys Môn
Mynegeio yn ôl y MPD	127	135	5.3
Cap o 1%	82	88	3.4
LBA	69	79	2.9
LCCh â therfyn amser	74	68	3.1
BP - rhewi cyfraddau	24	24	1.0
BP - tapro	15	21	0.6
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	21	19	0.9
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	12	12	0.5
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	13	12	0.6
BT: rheolau tanfeddiannu	10	12	0.4
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	7	8	0.3
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	1	2	~
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.1
Cyfanswm	457	480	19.1

~ Dangoswyd llai na hanner y digid olaf ac mae'n wahanol i sero




Wrecsam

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Wrecsam	Cymru	Wrecsam
Mynegeio yn ôl y MPD	128	135	11.0
Cap o 1%	82	88	7.1
LBA	74	79	6.3
LCCh â therfyn amser	57	68	4.9
BP - rhewi cyfraddau	25	24	2.2
BP - tapro	23	21	2.0
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	16	19	1.4
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	15	12	1.3
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	9	12	0.8
BT: rheolau tanfeddiannu	12	12	1.1
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	5	8	0.4
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	1	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.1
Cyfanswm	449	480	38.5




Bro Morgannwg

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Bro Morgannwg	Cymru	
Mynegeio yn ôl y MPD	118	135	9.3
Cap o 1%	80	88	6.3
LBA	63	79	4.9
LCCh â therfyn amser	49	68	3.9
BP - rhewi cyfraddau	26	24	2.0
BP - tapro	31	21	2.4
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	16	19	1.2
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	12	12	0.9
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	17	12	1.3
BT: rheolau tanfeddiannu	9	12	0.7
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	9	8	0.7
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	4	2	0.3
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.2
Cyfanswm	436	480	34.3




Caerdydd

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Caerdydd	Cymru	Caerdydd
Mynegeio yn ôl y MPD	117	135	27.8
Cap o 1%	83	88	19.8
LBA	61	79	14.4
LCCh â therfyn amser	41	68	9.6
BP - rhewi cyfraddau	22	24	5.1
BP - tapro	38	21	9.0
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	23	19	5.4
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	9	12	2.1
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	14	12	3.4
BT: rheolau tanfeddiannu	11	12	2.5
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	8	8	1.8
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	4	2	1.0
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	3	2	0.8
Cyfanswm	433	480	102.9




Sir y Fflint

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Sir y Fflint	Cymru	
Mynegeio yn ôl y MPD	114	135	11.0
Cap o 1%	74	88	7.1
LBA	64	79	6.1
LCCh â therfyn amser	58	68	5.5
BP - rhewi cyfraddau	25	24	2.4
BP - tapro	20	21	1.9
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	13	19	1.3
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	14	12	1.4
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	10	12	0.9
BT: rheolau tanfeddiannu	9	12	0.9
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	6	8	0.5
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	1	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	2	2	0.2
Cyfanswm	410	480	39.3



Sir Fynwy


Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Sir Fynwy	Cymru	
Mynegeio yn ôl y MPD	103	135	5.7
Cap o 1%	64	88	3.6
LBA	58	79	3.2
LCCh â therfyn amser	52	68	2.9
BP - rhewi cyfraddau	24	24	1.3
BP - tapro	50	21	2.8
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	10	19	0.6
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	14	12	0.8
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	6	12	0.3
BT: rheolau tanfeddiannu	7	12	0.4
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	4	8	0.2
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	1	2	0.1
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	1	2	0.1
Cyfanswm	394	480	21.9



Powys

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Powys	Cymru	
Mynegeio yn ôl y MPD	112	135	8.8
Cap o 1%	70	88	5.5
LBA	63	79	4.9
LCCh â therfyn amser	63	68	4.9
BP - rhewi cyfraddau	23	24	1.8
BP - tapro	18	21	1.4
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	7	19	0.6
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	12	12	1.0
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	9	12	0.7
BT: rheolau tanfeddiannu	9	12	0.7
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	5	8	0.4
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	~	2	~
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	1	2	0.1
Cyfanswm	391	480	30.8


~ Dangoswyd llai na hanner y digid olaf ac mae'n wahanol i sero



Gwynedd

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Gwynedd	Cymru	Gwynedd
Mynegeio yn ôl y MPD	109	135	8.2
Cap o 1%	69	88	5.2
LBA	54	79	4.1
LCCh â therfyn amser	52	68	3.9
BP - rhewi cyfraddau	22	24	1.6
BP - tapro	12	21	0.9
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	18	19	1.4
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	10	12	0.8
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	9	12	0.6
BT: rheolau tanfeddiannu	11	12	0.8
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	5	8	0.4
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	~	2	~
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	1	2	0.1
Cyfanswm	373	480	27.9


~ Dangoswyd llai na hanner y digid olaf ac mae'n wahanol i sero



Ceredigion

Diwygio Lles	Colled ariannol fesul oedolyn o oedran gweithio £ y flwyddyn		Cyfanswm yr incwm a gollwyd £m y flwyddyn
	Ceredigion	Cymru	Ceredigion
Mynegeio yn ôl y MPD	101	135	4.9
Cap o 1%	65	88	3.2
LBA	60	79	2.9
LCCh â therfyn amser	51	68	2.5
BP - rhewi cyfraddau	19	24	0.9
BP - tapro	15	21	0.7
CTG - rheolau ynglŷn ag oriau	14	19	0.7
CTP - dileu'r ail drothwy incwm	9	12	0.4
BT: Diwygiadau 2011-12 i'r LTLI	15	12	0.7
BT: rheolau tanfeddiannu	5	12	0.3
BT: Mynegeio yn ôl y MPD	8	8	0.4
BT: Cynyddu trothwy oedran CLIR	1	2	~
Cap ar Fudd-dal Aelwydydd	1	2	0.1
Cyfanswm	363	480	17.7

~ Dangoswyd llai na hanner y digid olaf ac mae'n wahanol i sero



Atodiad 2: Ffynonellau o ddata a methodoleg

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r ffynonellau o ddata a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad a grynhoir yn yr adroddiad hwn.

Credyd Cynhwysol (a aseswyd ar lefel Cymru yn unig)

Mae'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt a'r incwm a gollwyd ar gyfartaledd yn seiliedig ar ddata ar y Credyd Cynhwysol i Gymru a gafwyd mewn e-bost gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r effaith hon yn ymwneud â'r cyflwr sefydlog; sef unwaith bod y Credyd Cynhwysol wedi'i weithredu'n llawn a bod y diogelwch trosiannol wedi dod i ben yn gyfan gwbl. At ddibenion modelu, tybir y bydd hyn yn digwydd yn 2014-15. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys addasiad er mwyn cyfrif am hawlio anghyflawn.

Newid i fynegeio bron pob budd-dal a chredyd treth yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu neu Fynegai Rossi

Mae'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru yn seiliedig ar lwythi achosion yr Adran Gwaith a Phensiynau (Lwfans Gofalwr, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth/Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Gwraig Weddw, Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor) a llwythi achosion credydau treth a Budd-dal Plant Cyllid a Thollau EM.

Cyfrifwyd yr effaith ariannol yng Nghymru drwy uwchraddio gwariant perthnasol ar fudd-daliadau/credydau treth yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu/Mynegai Rossi (opsiwn 'heb bolisi') a'i gymharu â sefyllfa lle roedd gwariant wedi'i uwchraddio yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (opsiwn 'gyda pholisi'). Yna cafodd y gwahaniaeth ei ddosrannu yn ôl gwariant ar fudd-daliadau, credydau treth a Budd-dal Plant a'u dyrannu i bob ardal awdurdod lleol yn seiliedig ar wariant/cyfrannau llwythi achosion (ffynhonnell: gwariant yr Adran Gwaith a Phensiynau ar fudd-daliadau yn ôl gwlad, rhanbarth ac awdurdod lleol, 2011/12, derbyniadau treth Cyllid a Thollau EM rhwng Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, 2012/13, rhagolygon chwyddiant - y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol 2013, gwariant y DU/Prydain Fawr ar fudd-daliadau/credydau treth - Cyllideb 2013, Dadansoddiad Daearyddol Ystadegau Budd-dal Plant Cyllid a Thollau EM, Awst 2012 ac Ystadegau Credydau Treth Daearyddol Swyddfa Cyllid a Thollau EM, 2011/12).

Mae cyfanswm y colledion ariannol amcangyfrifedig yn wahanol i'r hyn a gynhwyswyd yn adroddiad Cam 2 Llywodraeth Cymru yn bennaf oherwydd rhagolygon diwygiedig o chwyddiant a hefyd mae methodoleg wahanol wedi'i defnyddio hefyd.

Y cap o 1 y cant ar y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, rhai elfennau o gredydau treth a Budd-dal Plant

Budd-daliadau dewisol oedran gweithio a chredydau treth: Cynnydd o 1% am dair blynedd o 2013-14

Mae'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru yn seiliedig ar lwythi achosion yr Adran Gwaith a Phensiynau ar fudd-daliadau (Lwfans Gofalwr, Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth/Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, a Budd-dal Gwraig Weddw) a llwythi achosion credydau treth Cyllid a Thollau EM.

Amcangyfrifwyd cyfran y Trysorlys o arbedion o Gymru yn ôl cyfran o wariant perthnasol yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM ar fudd-daliadau/credydau treth Prydain Fawr yng Nghymru (ffynhonnell: gwariant yr Adran Gwaith a Phensiynau ar fudd-daliadau yn ôl gwlad, rhanbarth ac awdurdod lleol, 2011/12 a derbyniadau treth Cyllid a Thollau EM rhwng Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, 2012/13). Mae effeithiau ar Awdurdodau Lleol wedi'u dyrannu yn ôl gwariant yr Adran Gwaith a Phensiynau ar fudd-daliadau a chyfrannau llwythi achosion credydau treth Cyllid a Thollau EM (ffynhonnell: gwariant yr Adran Gwaith a Phensiynau ar fudd-daliadau yn ôl gwlad, rhanbarth ac awdurdod lleol, 2011/12 ac Ystadegau Credydau Treth Daearyddol CThEM, 2011/12).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013a) yn amcangyfrif mai'r golled gyfartalog i aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yn sgil uwchraddio budd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Budd-dal Plant 1 y cant fydd £3 yr wythnos yn 2015/16. Amcangyfrif ar gyfer Prydain Fawr ydyw (nid oes amcangyfrif ar gyfer Cymru).

BP: ei uwchraddio 1% am ddwy flynedd o 2014/15

Mae'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru yn seiliedig ar lwythi achosion BP CThEM. Amcangyfrifwyd cyfran y Trysorlys o arbedion o Gymru yn ôl y gyfran o gyfanswm gwariant y DU ar BP yng Nghymru. Mae effeithiau ar Awdurdodau Lleol wedi'u dyrannu yn ôl cyfrannau llwythi achosion (Ffynhonnell: derbyniadau treth CThEM rhwng Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, 2012/13 a Dadansoddiad Daearyddol Ystadegau Budd-dal Plant CThEM, Awst 2012).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013a) yn amcangyfrif mai'r golled gyfartalog i aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yn sgil uwchraddio budd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Budd-dal Plant 1 y cant fydd £3 yr wythnos yn 2015/16. Amcangyfrif ar gyfer Prydain Fawr ydyw (nid oes amcangyfrif ar gyfer Cymru).

Uwchraddio 1 y cant am ddwy flynedd o 2014/15 ar gyfer LTLI o fewn BT

Mae'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru yn seiliedig ar ddata llwythi achosion BT yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y Sector Rhentu Preifat. Amcangyfrifwyd cyfran y Trysorlys o arbedion o Gymru yn ôl y gyfran o gyfanswm gwariant Prydain Fawr ar BT SRhP yng Nghymru (a gyfrifwyd drwy ddefnyddio llwythi achosion a dyfarniadau cyfartalog - ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau Stat-Xplore, ystadegau Mai 2013). Dyrannwyd effeithiau ar Awdurdodau Lleol yn ôl cyfrannau o wariant ar BT SRhP (a gyfrifwyd drwy ddefnyddio llwythi achosion a dyfarniadau cyfartalog - ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau Stat-Xplore, ystadegau Mai 2013).

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013a) yn amcangyfrif mai'r golled gyfartalog i aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yn sgil uwchraddio cyfraddau LTLI 1 y cant fydd £3 yr wythnos yn 2015/16. Amcangyfrif ar gyfer Prydain Fawr ydyw (nid oes amcangyfrif ar gyfer Cymru).

Caiff 30 y cant o'r arbedion oherwydd y mesur hwn (yn seiliedig ar ragolygon Datganiad Hydref 2012) ei ddefnyddio i gynyddu cyfraddau LTLI dros 1 y cant mewn ardaloedd lle ceir risg y bydd llety yn mynd yn anfforddiadwy. Cyfeirir at yr arian hwn fel y Gronfa Fforddiadwyedd Wedi'i Thargedu. Mae cyfanswm o £140 miliwn ar gael dros y ddwy flynedd; £45 miliwn yn 2014/15, gan gynyddu i £95 miliwn yn 2015/16. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys effaith yr arian hwn. Mae 126 o lwfansau tai lleol unigol ledled y DU a fydd yn cael arian o'r gronfa hon:-

- (i) 11 o lwfansau tai lleol yng Nghymru (9%);
- (ii) 9 o ardaloedd lwfans tai lleol yn yr Alban (7%);
- (iii) 106 o lwfansau tai lleol yn Lloegr (84%) [63 yn Llundain a'r Siroedd cyfagos (50%)]

Bydd lwfansau tai lleol y rhai sy'n ymddangos yn y tabl dros y dudalen yn cynyddu 4 y cant yn 2014/15 hyd at yr uchafswm lwfans tai lleol. Bydd rhenti'r rhai nad ydynt yn ymddangos yn y rhestr yn cynyddu 1 y cant neu'r lwfans tai lleol yn seiliedig ar y 30ain ganradd pa un bynnag fo isaf.

Ardal awdurdod lleol	Lwfans Tai Lleol wedi cynyddu	Ebrill 2013	Ebrill 2014	Cyfradd uchaf
Blaenau Gwent	Un ystafell wely, llety a rennir	£45.00	£46.80	£258.06
Brycheiniog a Sir Faesyfed	Tair ystafell wely	£106.13	£110.38	£350.95
Pen-y-bont ar Ogwr	Un ystafell wely, llety a rennir	£55.19	£57.40	£258.06
Caerffili	Pedair ystafell wely	£129.71	£134.90	£412.89
Ceredigion	Un ystafell wely, llety a rennir.	£59.50	£61.88	£258.06
	Un ystafell wely, defnydd cyfyngol	£85.00	£88.40	£258.06
Merthyr Cynon	Un ystafell wely, llety a rennir	£45.00	£46.80	£258.06
Castell-nedd Port Talbot	Un ystafell wely, llety a rennir	£47.17	£49.06	£258.06
Gogledd-orllewin Cymru	Pedair ystafell wely	£126.92	£132.00	£412.89
De Gwynedd	Un ystafell wely, llety a rennir	£56.21	£58.46	£258.06
Taf Rhondda	Un ystafell wely, llety a rennir	£45.00	£46.80	£258.06

Cyfanswm yr effaith

Cyfrifwyd hyn drwy gyfuno'r amcangyfrifon o'r tair elfen uchod. Mae cyfanswm y golled ariannol amcangyfrifedig yn wahanol i'r hyn a gynhwyswyd yn adroddiad Cam 2 Llywodraeth Cymru oherwydd costau polisi diwygiedig a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn 2013, cwmphas gwahanol (mae'r amcangyfrif yn cynnwys y cap o 1 y cant ar gyfraddau LTLI bellach) a'r defnydd o fethodoleg wahanol er mwyn gallu cyfrifo effeithiau ar lefel leol.

Lwfans Byw i'r Anabl: colli'r hawl

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012) yn amcangyfrif y bydd TAP yn arwain at 607,000 yn llai o hawlwr ym Mhrydain Fawr erbyn mis Mai 2018 (o gymharu â sefyllfa lle nad yw TAP wedi'i gyflwyno). Gan dybio effaith sy'n gymesur â ffigur cyfun Prydain Fawr yn seiliedig ar lwythi achosion, byddai hyn yn effeithio ar tua 7 y cant o'r cyfanswm hwn yng Nghymru (h.y. 42,500) (Llywodraeth Leol, 2013a). Dyrannwyd y niferoedd yr effeithiwyd arnynt ym mhob ardal awdurdod lleol ar sail llwyth achosion LBA i'r rhai o oedran gweithio (data'r Adran Gwaith a Phensiynau, Tachwedd 2012).

Mae'r golled ariannol yng Nghymru yn seiliedig ar ganolbwynt yr amcangyfrif a ddarparwyd fel rhan o ddadansoddiad Cam 2 Llywodraeth Cymru (prisiau 2015/16). Fe'i dyrannwyd ar gyfer pob ardal ar sail llwyth achosion LBA i'r rhai o oedran gweithio.

Mae'r amcangyfrifon hyn yn ymwneud â'r rhai sy'n colli hawliad. Oherwydd prinder data, ni fu modd asesu ar lefel leol (nac ar lefel Cymru) y niferoedd sy'n cael dyfarniad uwch/is a'r golled ariannol gysylltiedig.

Pennu terfyn amser o flwyddyn ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol i'r rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn rhagweld y bydd y polisi i bennu terfyn amser yn effeithio ar 700,000 o hawlwr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyfrannol yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith ym Mhrydain Fawr erbyn 2015/16 (Ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011a). Gan dybio effaith sy'n gymesur â ffigur cyfun Prydain Fawr yn seiliedig ar lwythi achosion, (y rhai yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith a fydd yn parhau i gael LCCh cyfrannol am flwyddyn neu fwy), byddai hyn yn effeithio ar tua 8 y cant o'r cyfanswm hwn yng Nghymru (h.y. tua 56,000) (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2013a).

Cyfrifwyd nifer yr hawlwr yr effeithiwyd arnynt ar lefel leol drwy ddosrannu amcangyfrif Cymru rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar eu cyfran o hawlwr LCCh yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith (Ffynhonnell: data'r Adran Gwaith a Phensiynau, Chwefror 2012).

Cyfrifwyd y golled ariannol flynyddol oherwydd y mesur hwn drwy ddosrannu amcangyfrif Cymru ar gyfer 2015/16 rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar eu cyfran o gyfanswm hawlwr LCCh yn y Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith (Ffynhonnell: data'r Adran Gwaith a Phensiynau, Chwefror 2012).

Budd-dal Plant: rhewi cyfraddau

Mae nifer y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt yn seiliedig ar y rhai sy'n cael Budd-dal Plant ym mhob ardal awdurdod lleol ym mis Awst 2011 (Ffynhonnell: CThEM, 2012).

Dosrannwyd colled ariannol ar lefel Cymru rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar eu cyfran o deuluoedd sy'n cael BP yng Nghymru ym mis Awst 2011 (Ffynhonnell: CThEM, 2012).

Budd-dal Plant: yn cael ei dynnu'n ôl yn raddol lle mae gan aelod o'r aelwyd incwm trethadwy sydd dros £50,000

Mae CThEM (2012a) wedi amcangyfrif nifer y teuluoedd (1.2 miliwn) yr effeithiwyd arnynt gan y diwygiad hwn ar lefel Prydain Fawr. Amcangyfrifodd gwaith ymchwil Cam 2 Llywodraeth Cymru nifer y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru (31,000) yn seiliedig ar gyfran Cymru o'r rhai sy'n ennill mwy na £50,000 ym Mhrydain Fawr. Mae nifer y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt ar lefel awdurdod lleol yn seiliedig ar ddosbarthiad nifer y cyflogeion yng Nghymru sy'n ennill mwy na £50,000 y flwyddyn (2010-12).

Dosrannwyd colled ariannol ar lefel Cymru (£41 miliwn, Llywodraeth Cymru 2013a) rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar ddosbarthiad nifer y cyflogeion yng Nghymru sy'n ennill mwy na £50,000 y flwyddyn (2010-12).

Credyd Treth Gwaith: Cynnydd yn y gofyniad o ran oriau gwaith i gyplau sydd â phlant o 16 i 24 awr

Mae nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yn seiliedig ar ddata ar lefel etholaethau seneddol a gyhoeddwyd mewn ymateb i gwestiwn Seneddol (yn seiliedig ar ddata mis Rhagfyr 2011 ar gredydau treth), sydd wed cael eu troi'n amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol gan Lywodraeth Cymru.

Dosrannwyd y golled ariannol fwyaf ar lefel Cymru (£36 miliwn, Llywodraeth Cymru 2013a) rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar eu cyfran o aelwydydd yr effeithiwyd arnynt (Ffynhonnell: gweler y paragraff uchod).

Credyd Treth Plant: dileu'r ail drothwy incwm

Mae nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yn seiliedig ar ddata ar lefel awdurdod lleol a gyhoeddwyd mewn ymateb i gwestiwn Seneddol.

Dosrannwyd y golled ariannol fwyaf ar lefel Cymru (£24 miliwn, Llywodraeth Cymru 2013a) rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar eu cyfran o aelwydydd yr effeithiwyd arnynt (Ffynhonnell: gweler y paragraff uchod).

Budd-dal Tai: Diwygiadau 2011-12 i'r Lwfans Tai Lleol

Mae'n cynnwys cyfyngu ar lefelau LTLL hyd at y gyfradd 4 ystafell wely a chymhwyso uchafswm cap wythnosol; dileu'r ddarpariaeth ar gyfer hawlwyd i gadw hyd at £15 yr wythnos lle mae eu rhent yn is na chyfradd y LTLL; a, newid y sail dros bennu cyfraddau LTLL o'r canolrif i'r 30ain ganradd o renti'r farchnad leol.

Defnyddiwyd data ar lefel awdurdod lleol ar y:

- Nifer amcangyfrifedig o hawlwr LTLI sydd ar eu colled neu ar eu colled yn dybiannol oherwydd mesurau LTLI a ddaeth i rym yn 2011-12 (mae llwythi achosion BT yn ymwneud â mis Mawrth 2010. Mae'r niferoedd sydd ar eu colled yn adlewyrchu effaith lawn y mesurau yn y cyflwr sefydlog, unwaith eu bod yn effeithio ar bob un sy'n cael BT a aseswyd o dan y cynllun LTLI;
- Dengys y golled gyfartalog amcangyfrifedig (£) fesul un sydd ar ei golled neu ar ei golled yn dybiannol yr wythnos (mae hyn yn adlewyrchu colledion mis Mawrth 2010, h.y. dengys hyn yr hyn a fyddai wedi digwydd pe bai'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflwyno'r mesurau ar unwaith i bob hawlwr ym mis Mawrth 2010).

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2010a) Impacts of Housing Benefit Proposals: Changes to the Local Housing Allowance to be introduced in 2011-12.

Budd-dal Tai: Meini prawf maint i bobl sy'n rhentu yn y sector rhentu cymdeithasol

Defnyddiwyd data ar lefel awdurdod lleol ar:

- Nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan y mesur hwn ym mis Awst 2013, a'r gostyngiad cyfartalog yn y Budd-dal Tai a ddyfarnwyd iddynt.

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013e) Number of Housing Benefit claimants and average weekly spare room subsidy amount withdrawal. Noder: gan fod yr amcangyfrifon diweddaraf hyn yn wahanol i'r hyn yn asesiad yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r effaith, mae'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn yn wahanol i'r rhai yn adroddiad Cam 2 Llywodraeth Cymru. Gellir esbonio'r nifer is o aelwydydd yr effeithiwyd arnynt oherwydd yr eithriadau a wnaed i'r mesur hwn ers i Asesiad yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r Effaith gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2012, a hefyd oherwydd y ffaith bod rhai hawlwr yr effeithiwyd arnynt wedi symud i eiddo llai o faint ers i'r mesur ddod i rym ym mis Ebrill 2013.

Budd-dal Tai: uwchraddio Lwfans Tai Lleol yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r 30^{ain} ganradd o renti'r farchnad leol

Bydd y mesur hwn yn effeithio ar bob un sy'n cael LTLI yng Nghymru.

Defnyddiwyd data ar lefel awdurdod lleol ar:

- Nifer y rhai sy'n cael LTLI (mae llwythi achosion BT yn ymwneud â mis Mawrth 2010. Mae'r niferoedd sydd ar eu colled yn adlewyrchu effaith lawn y mesur hwn yn y cyflwr sefydlog, h.y. ar gyfer y llwyth achosion llawn yr effeithiwyd arnynt). Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011d) Housing Benefit Equality Impact Assessment: Increasing the Shared Accommodation Rate age threshold to 35.

Nid oes unrhyw ddata ar gael ar lefel awdurdod lleol ynglŷn â'r golled gyfartalog amcangyfrifedig (£) fesul un sydd ar ei golled neu ar ei golled yn dybiannol yr wythnos. Mae amcangyfrifon yn seiliedig ar golled gyfartalog i Brydain Fawr gyfan (nid oes data ar gael i Gymru). Mae rhenti cyfartalog yng Nghymru yn is nag ydynt yn Lloegr, felly mae'r effaith ar hawlwyd unigol yn debygol o fod yn llai na'r incwm a gollwyd yn genedlaethol ar gyfartaledd, sef £6 fesul un sydd ar ei golled yr wythnos (Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012h) Housing Benefit – Up-rating LHA rates by CPI from April 2013 - Impact Assessment). O ystyried y prinder data, mae hyn yn golygu bod yr un golled gyfartalog yn gymwys ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ymarferol mae hyn yn annhebygol o fod yn wir o ystyried y gwahanol lefelau rhenti lleol.

Cap ar Fudd-dal Aelwydydd

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (2013) yn amcangyfrif y bydd y Cap ar Fudd-dal Aelwydydd yn effeithio ar 1,100 o aelwydydd yng Nghymru yn 2013/14 (amcangyfrif a dderbyniwyd drwy e-bost gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Ebrill 2013). Mae'r amcangyfrif diwygiedig hwn yn is nag amcangyfrif cynharach yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef 1,500 o aelwydydd yng Nghymru, a ddefnyddiwyd yn nadansoddiad Cam 2 Llywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif diweddaraf hwn yn gyson â'r dadansoddiad ar lefel Prydain Fawr a gynhwyswyd yn: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013d) Ad hoc statistics on Households identified as potentially impacted by the benefit cap. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi dadansoddiad o nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn ar gael ar gyfer pob ardal awdurdod lleol arall, lle yr effeithir ar lai na 100 o aelwydydd.

Er mwyn amcangyfrif nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt ym mhob ardal awdurdod lleol, defnyddiwyd data o'r cyhoeddiad canlynol:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012j) GB households and individuals in receipt of a letter notifying them they may be affected by the benefit cap in April 2013. Ad hoc statistical analysis.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt gan y Cap ar Fudd-dal Aelwydydd ar lefel awdurdod lleol hyd at fis Hydref 2013. Fodd bynnag, defnyddiwyd y data uchod am eu bod yn ymwneud ag amcangyfrif blynyddol ar gyfer 2013/14.

Cyfrifwyd colled ariannol ar lefel Cymru (£4 miliwn) drwy ddefnyddio nifer yr aelwydydd yr effeithiwyd arnynt wedi'i luosi â'r golled gyfartalog fesul aelwyd sydd ar ei cholled (£68 yr wythnos. Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, a dderbyniwyd drwy e-bost). Mae cyfanswm y golled hon yn llai na'r hyn a amcangyfrifwyd yn adroddiad Cam 2 (£5 miliwn) am fod amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau o nifer yr aelwydydd yng Nghymru ynghyd â'r incwm a gollwyd ar gyfartaledd wedi cael eu lleihau. Gan nad yw'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi data ar lefel awdurdod lleol ynglŷn â'r golled gyfartalog fesul aelwyd sydd ar ei cholled, mae'r golled ariannol ar lefel lleol

wedi cael ei rhannu yn ôl nifer yr aelwydydd sydd wedi derbyn llythyr sy'n eu hysbysu y gallai'r cap ar fudd-daliadau effeithio arnynt.

Budd-dal Tai: Cynyddu trothwy oedran y Gyfradd Llety a Rennir o 25 i 35 oed

Defnyddiwyd data ar lefel awdurdod lleol ar:

- Nifer amcangyfrifedig o unigolion sy'n cael LTLI sydd ar eu colled neu ar eu colled yn dybiannol oherwydd y cynnydd yn y trothwy oedran ar gyfer cyfradd llety a rennir BT i 35 (mae llwythi achosion BT yn ymwneud â mis Mawrth 2010. Mae'r niferoedd sydd ar eu colled yn adlewyrchu effaith lawn y mesur hwn yn y cyflwr sefydlog, h.y. ar gyfer y llwyth achosion llawn yr effeithiwyd arnynt);
- Dengys y golled gyfartalog amcangyfrifedig (£) fesul un sydd ar ei golled neu ar ei golled yn dybiannol yr wythnos (mae hyn yn adlewyrchu colledion mis Mawrth 2010, h.y. dengys hyn yr hyn a fyddai wedi digwydd pe bai'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflwyno'r mesurau ar unwaith i bob hawliwr ym mis Mawrth 2010 ond gyda'r newidiadau i LTLI yn 2011-12 ar waith).

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011d) Housing Benefit Equality Impact Assessment: Increasing the Shared Accommodation Rate age threshold to 35. Nid yw'r asesiad hwn wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r eithriadau ar gyfer cyn-gysgwyr ar y stryd a chyn-droseddwy'r gan nad yw'r data gweinyddol a ddefnyddiwyd yn caniatáu adnabod yr hawlwy'r y byddai ganddynt hawl i'r eithriadau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif ar unrhyw adeg y bydd tua 6,000 o hawliadau yn gymwys i'r eithriadau ym Mhrydain Fawr gyfan (h.y. tua 10 y cant o'r nifer amcangyfrifedig o'r rhai sydd ar eu colled). Awgryma hyn y bydd y mesur hwn yn effeithio ar 300 yn llai o hawlwy'r yng Nghymru na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Defnyddiwyd data ar lefel awdurdod lleol ar:

- Nifer y rhai sy'n cael BDG ym mis Chwefror 2013.

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2013c) Housing Benefit and Council Tax Benefit summary statistics: February 2013.

Defnyddiwyd dosbarthiad ariannu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2013-14 ledled awdurdodau lleol (Ffynhonnell: Setliad Awdurdodau Unedol).